

74
DILIAU MEIRION,

AIL RAN,

GAN
MEURIG EBRILL,
DOLGELLAU,

GYDA DARLUN O'R AWDWR.

Diliau i'r holl frawdoliaeth—a weithiais
O wythen barddoniaeth;
Erched pob un fedd archwaeth
Ddogn o fêl a ddyg iawn faeth.

LLYNLLEIFIAD :
ARGRAFFEDIG GAN J. LLOYD, 15, HEOL SANT ANNE.

1854.

PRIS SWLLT.



MORRIS DAVIES

MEURIG EBRILL:

DOLGELLAU.

DILIAU MEIRION,

AIL RAN,

GAN
MEURIG EBRILL,
DOLGELLAU,

GYDA DARLUN O'R AWDWR.

Diliau i'r holl frawdoliaeth—a weithiais
O wythen barddoniaeth;
Erched pob un fedd archwaeth
Ddogn o fêl a ddyg iawn faeth.

LLYNLLEIFIAD:
ARGRAFFEDIG GAN J. LLOYD, 15, HEOL SANT ANNE

—
1854.

28915

e. 20 Google

GWELLIANT GWALLAU.

- Tu dalen 51—Yn lle lywyddu, darllener Hywyddu.**
Eto 56—Yn lle Lewis Edwards, darllener Lewis Roberts.
Eto 59—Yn lle ymariaist, darllener ymwriaist.
Eto 66—Yn lle ddisgyna, darllener disgyna.
Eto 84—Yn lle G. B. Phillips, darllener J. B. Phillips.



ENGLYNION

I ANERCH "DILIAU MEIRION,"

YR AIL RAN.

Mawrwyd yw "Diliau Meirion"—o dalent,
A dilwgr feddylion ;
Byrddaid yn llawn i'r beirddion,
Ac eres saig i'r oes hon.

Llyfr od, el llafar ydyw,—urddunawl
Farddoniaeth diledryw,
O waith hardd awen bardd byw—
Gwir hyddysg a geir heddyw.

Dillynawg perlawg lyfr purlan,—trysor
Gwerth triswllt yw'r cyfan ;
Ar air ceir gwerth yr arian
O'r elw a rydd yr ail ran.—EYRE MEIRION.

EREILL ETO.

A llon hwyl rwy'n llawenhau,—dan effaith
Dawn hoffus eich "Diliau ;"
Cywir y gwelir chwi'n gwau,
Gwiw radløn seingar odlau.

Moroedd yw "Diliau Meirion,"—a hidlant
Eu hodlau melusion ;
Pwy? Pwy? o Fynwy i Fôn
Fyth fwria'r fath ddiferion?—IFUAN IDRIS.

RHAGYMADRODD.

ANWYL GYFEILLION, yn *Feirdd a Llenorion Cymreig, trwy Gymru, Lloegr, a pharthau eraill o'r byd yn gyffredinol*.—Wele fi ar anogaeth a dymuniad lluaws o'm hewyllyswyr da, wedi dwyn allan o'r argraffwasg, yr ail ran o "DDILIAU MEIRION," gyda darlun o'r awdwr. Cwynai rhai o'm tanysgrifwyr blaenorol fod y rhan gyntaf o'r "DILIAU" braidd yn rhy chwerw i'w harchwaeth hwy, am fod gormod o'r cyfansoddiadau ar y Mesurau Caethion; gan hyny rhoddais yn yr ail ran amryw o gerddi a charolau byrion er mwyn boddhau pawb hyd y medrwn; ond nid wyf yn honi fod llawer o berffeithrwydd mewn dim o'm gwaith fy hun beth bynag. Gwelwch hefyd i mi roddi lle i bryddestau rhai awdwyr eraill yn yr ail ran, nid am nad oedd genyf ddigon o ddefnyddiau fy hun, ond er mwyn dangos i bryddestwyr yr oes hon y fath glymiadau cynganeddawl, a synwyr cryf oedd gan yr hen feirdd pan y gwnaent ymddarostwng i ganu ar y Mesurau Rhyddion, ac hefyd rhag i rai o'u cerddi fyned ar ddifancoll, sef "Cerdd y Llwy Bren," gan Lewis Morris, Ysw., (Llewelyn Ddu o Fôn); ac "Anerchiad i'r Dr. Price Anwyl," gan Robert ab Gwilym Ddu; "Cyfieithiad o'r 108 Salm," gan y Parch. Ellis Wynn, o Lasynys; "Llysfam Ddrwg," gan Gutyn Ebrill; "Cymreigyddion Caerludd," gan Francis Jones, Tywyn, Meirion; "Carol Nadolig," gan Callestr Fardd. Hyderwyf y caiff amryw ddifyrwrch wrth ddarllen gweithiau y rhai hyn yn y "DILIAU," yn nghyd a'r cyfansoddiadau eraill sydd yn y rhan hon.

Terfynaf yn awr trwy gyflwyno fy niolchgarwch gwresocaf i'm holl garedig ewyllyswyr da yn gyffredinol, am eu parodrwydd i bwrcasu y rhan gyntaf a'r ail o "DDILIAU MEIRION," gan hyderu na chant byth achos i edifarhau o herwydd hyny,

Eich diffuant

Hen frawd,

MEURIG EBRILL.

Mawrth 25, 1854.

RHAGDRAITH.

O bob dawn radlawn a roes
Yr Ion, yn gysur einioes,
Hynottaf peth yn natur,
Yw mwyn waith bardd mewn iaith bur.

D. Ionawr.

YMFROSTIA y cryf yn ei nerth, y cybydd yn ei gyfoeth, a'r Bardd yn ei waith. Diflanodd nerth y cawr cadarnaf—bu y goludog farw; ond y mae ambell Fardd er iddo farw “yn llefaru etto.” Adeiladwyd cofgolofnau gorwychion i gofio am ddewrder llyngeswyr a maeslywyddion, ar ol iddynt feirw, rhag i'w henwau fyned i dir anghof. Gwelodd Ardalydd Mon a Duc Wellington eu cofgolofnau wedi eu gorphen gan ddwyllaw eraill; a dyma MEURIG EBRILL wedi byw i weled y maen olaf yn cael ei osod ganddo ef ei hun, i orphen ei gof-golofn yntau, yr hon a hyderwn a fydd yn sefyll

“Tra bo'r iaith rydd

A Gwalia wrth eu gilydd.”

Darfu i'r croesaw gwresog a dderbyniodd yr hen tardd oddiwrth dderbynwyr y rhan gyntaf o “DDILIAU MEIRION,” a chymelliad calonog llu o gyfeillion ei ddwyn i benderfynu cyhoeddi yr “*Ail Ran*,” yr hon sydd yn awr o'u blaen. Tybiwn fod yn hon bethau a foddlonga bron bob dosparth o hoffwyr barddoniaeth, ond yn unig y rhai na hoffant ond yr hyn a wnant eu *hunain*. Canfyddir oddiwrth y cyfansoddiadau mai y Mesurau Caethion ydyw prif hoffder yr awdwr; ac nad ydyw gwneuthur englyn yn fwy poen iddo nag anadlu. Etto, cyfansoddodd lawer o ddarnau gorchestol yn y Mesurau Rhyddion; y mae amryw o honynt wedi eu rhoddi i fewn yma, ac aeth llawer o'i “gerddi boreuol” i dir anghof.

Hyderwn y ca y rhan hon etto groesawiad calonog fel y llall, ac na foddlonga yr un Cymro i fod hebddi gan y cynygir hi am *sullt*.

Bellach, gellir cael gwaith y bardd ynghyd a'i ddarlun, am dri swllt, y rhai all fod yn gymdeithion anwylaidd i filoedd ag sydd yn meddu calon i gymdeithasu â gwrthrychau teilwng o serch.

Dymunwn i'r hen fardd gael treulio y gweddill o'i oes mewn dedwyddwch, nes ei gelwir ar ddiwedd ei yrfa ddaearol i

“Ardal lawn o aur delynau.”

GUTYN EBRILL

Brithdir, Mawrth, 1854.

ANERCHIAD

I MEURIG EBRILL AR YMDDANGOSIAD YR AIL RAN O

“DDILIAU MEIRION.”

Meurig y diddig fardd doeth,—dieithrad

Athraw mawr a hyddoeth;

Sain o urddas synwyrddoeth,

Yw ei gân a'i awen goeth.

Rhoi geiriau o ragorion—yn ei waith

A wna ef mor gyson;

A llythreniad llywiad llon,

Braidd oll i'w bur ddiwyllion.

Yn ei henaint mae'n ynill—enw mawr

Yn Meirion i'w esill;

Y beirddion bawb rhoddwn bill,

Er gwobrwy i Meurig Ebrill.

Dengys ei ben Ben Bardd—a'i hardd wyneb
 Fawr ddoniau pur hydardd ;
 Ac yn wir mae'i dalcen hardd
 Yn brawf ei fod yn brif-fardd.

Yn Meirion ddinam orawr—e gododd
 Fel ei gadarn flaenawr ;
 Rhodd nef yw—cadd e'r ddawn fawr
 Feddiannai Dafydd Ionawr.

Beirdd welant ei bêr “Ddiliau,”—a molant
 Y mêl i'w geneuau ;
 Adwaenant hwy werth doniau,
 Am yr hyn gwnant eu mawrhau.

CYWYDD.

Tra deil gwir, a thir, a thôn,
 Deil mawredd “Diliau Meirion ;”
 A deil mawrglod, hynod hedd,
 Enw Meurig mewn mawredd.
 Bardd trwyadl na fyn ddadl ddig,
 A mawr ei ddawn yw Meurig ;
 Drwy hwyliad ei reolaeth,
 Golud ei ddysg i'n gwlad ddaeth.
 Awen yw ei awen ef,
 O luniad yr oleunef ;
 A nef wen yn gwenu fu
 Uwch ei gynnyrch a'i ganu.
 Yn ei awen fwyn eos
 Cawn londer yn nyfnder nos.

Ei gywrain glymog eiriad,
 Roddai wledd i feirdd y wlad :
 Mydrawg wr yn medru gwau
 Ei lwyryon nerthol eiriau ;
 Geiriau na cheir trwy'n gorawr,
 I ddal mwy o feddwl mawr :
 Canghenau pob cynghanedd,
 Dan ei law a wnaed yn wledd ;
 Myn ef eiriad clymiad clau
 At osod eu morteisiau.
 Ni all fawr er dirfawr dân
 Ddynwarded ei ddawn eirian.
 Ei anian bur ddiweniaith
 A'i oes ef ddengys ei waith ;
 Sai ei ddawn am oesau'i dd'od,
 Yn ei bêr awen barod ;
 Er ei oed a'i fyn'd mor hen,
 Brwd yw ei barod awen ;
 Er ei wydrau a'i oedran,
 Wrtho deil mawr nerth ei dân.
 Digoll mae'n rhedeg allan
 Rediad têt fel ffrydiau tân !
 Ca'i er hoen ei feddwl cry,
 Hir waeledd ar ei wely ;
 Maith flynyddoedd oedd iddo
 O fawr nych dan ei fron o ;
 Meddyliai mai i ddialedd,
 Drwy'i boen oedd myned i'r bedd :
 Estyniad oes roes ei Ri,
 Ef wed'yn ga'i gyfodi,
 Er byw ar fin oer y bedd,
 Ymlonai 'mhen saith mlynedd !
 Mor brydferth i'w nerth yn ol

Dygwyd e 'n waredigol :
 Ef a'i awen adfywiodd,
 Adwaenai ras Duw'n ei rodd.
 Yn yr hoen ail gydiai'n rhydd,
 Yn ei awen o newydd :
 Ef a'i awen mor fywiog,
 A hwyliai'i gân fel y gôg.
 Wedi gwella dug allan
 Adail glir y Diliau glan.

Er ei bri gwna'r wlad o'r bron,
 Le mawr i Diliau Meirion :
 O'i ffraeth hwyl pur ffrwythau haf,
 A gaent hwy o'r "Rhan Gyntaf" :
 Ar ol yr eir i'r "Ail Ran,"
 Mel gwell ddaw'n amlwg allan ;
 Mel a gawn fel grawn yn grôg,
 Mae'n hen wenyne enwog :
 Y Diliau a adeiliwyd,
 Oll yn fel a llawn o fwyd :
 Dâl iachus adail uchel,
 A llawn maeth sydd well na mêl :
 Ceir yn wir mai cywrain yw,
 Hardd adail i'r beirdd ydyw.

Yn y rhan hon ar unwaith
 Ei lûn ef gawn a'i lawn waith :
 Rhan haeddol yr hon heddyw,
 A ddaw a'n Bardd yn ddyn byw,
 Ger ein bron mor llon a llanc,
 A'i Awen byth yn ieuanc.
 Ei gywir-lwys dêg arlun,
 Wna wir werth i lawer un.
 Llun ei gorff yn llawn a gaid,
 Wrth hyn a nerth ei enaid.

Mor gu yw Meurig a'i waith,
 Ei wên a'i gân ar unwaith ;
 Ei lun ef yn ei lawn faint,
 Mor heini mae er henaint !
 Llygadlon hen dirion dad,
 Fel hogyn mae'i fyw lygad :
 Fe ddeil dêg feddwl a dawn,
 Yn ei arlais synwyrllawn :
 A syw drêm, dengys ei drwyn,
 Feddyliol ryfedd olwyn :
 Mor ddidor mawredd y dyn,
 A geir o'i law i'w goryn.

Tuedd i goledd y gân,
 Enynai yn ei anian,
 Yn foreu ; a'i ddifyrwrch
 Fu'n hoff lanc pur awen fflwch.
 A thrwy gael gwych athrawon,
 Cynyddodd, fe brifiodd bron
 I fawredd anarferol ;
 Ni fedrai ef fod ar ôl,
 Er dim, mewn medyr a dawn,
 Ei goflaid fynai'n gyflawn.

Cafodd iach gyfeillach faith
 A Ionawr fardd diweniaith—
 Twm o'r Nant mawr iawn yntau,
 I'w ddydd ca'dd Meurig y ddau.
 Ionawr a saif yn oer sill,
 Gwelir wybren glir Ebrill ;
 Drwy'r hyn y deuir o'r Nant,
 A chawn hâf mewn uwch nwyfiant.

T. PIERCE

Liverpool.

Y CYNWYSIAD.

	TUDAL.
Y Wyneb-ddalen (<i>Title-page</i>)	1
Gwelliant Gwallau	2
Englynion i Anerch "Dihiau Meirion" yr Ail Ran	3
Ereill eto	3
Rhagymadrodd.....	4
Rhagdraith	5
Anerchiad i Meurig Ebrill ar ymddangosiad yr Ail Ran o "Dihiau Meirion"	6
Cywydd	7
Priodas-Gerdd Sir Robert Williams Vaughan, Barwnig	13
Can ar ddyfodiad R. W. Vaughan, Ysw., i'w oed.....	14
Penillion ar briodas R. W. Vaughan, Ysw.....	16
Anerchiad at y Doctor E. P. Anwyl, Brynadda.....	17
Atebiad i'r anerchiad uchod	18
Galar-Gerdd am y diweddar Mr. R. Jones, Llwyngwrlil ...	20
Anerchiad serchlon i Elen Meirion.....	22
Y Llysfam Ddrwg, gan Gutyn Ebrill.....	23
Y Bardd yn ei wely, yn Nolfanog, Talyllyn.....	25
Mawl-Gerdd i W. W. E. Wynne, Ysw., A.S.....	26
Can i ofyn llwy bren, gan y diweddar Lewis Morris.....	28
Can i'r Cymreigyddion yn Llundain.....	30
Englynion i Gaerlleon Gawr.....	31
Gwesty Bwl y Bala.....	32
Englynion i Feirch a Gwas y Rhiwlas.....	33
Dau Englyn i Bont Newydd Talyllyn.....	34
Hen Grog-bren Carchardy Dolgellau.....	34
Englynion i Miss Mary Richards	35
Eto i Mr. Owens y Ceidwad a'r teulu.....	36
Eto i'r "Cambrian Hotel," Llangollen.....	37
Eto i arwydd (<i>Sign</i>) y "Red Lion".....	39
Eto o glod i "Glwb Washington"	39
Eto ar ddyfodiad Miss Mary Jones, Hengwrt Uchaf i'w hoed	41
Dau Englyn i ddwy ferch y diweddar Mr. J. Jones.....	42
Englyn i dair merch Mr. J. Jones, Cottage, Llanelltyd....	43
Diolchgarwch i Miss Laura Griffith, Ty'n'rardd, Llanelltyd.	43
Anerchiad a chyngor i Miss Lora Griffith.....	44
Englynion o ddiolchgarwch i Miss Anne Jones, Penyaerau.	45
Anerchiad i Mr. David Morris Davies.....	46
Hir a Thoddaid i Mr. David Jones, (<i>Dewi Rhagfyr</i>).....	47
Dau Englyn i Mr. Humphrey Jones, Caerlleon.....	47
Eto i ferch fechan Mr. Jones.....	48
Dau Englyn i enhuddo digofaint Meistri R. Jones, (Robin Awst) a Gruffydd Siencyn ap Ieuan, Fferyllwyr, Towyn.	48
Anerchiad i deulu y Dolau Gwyn, Meirion.....	49
Plas Uchaf, a'i Ffumerau.....	49

Y Shop Newydd, Dolgellau.....	50
Cyfarchiad i R. N. Hartley, Ysw.	51
Llinellau ar farwolaeth y Parch. Walter Davies, A.C.....	53
Meurig Ebrill dan ergydion gwefr-beiriant Mr. J. Rees....	54
Anerchiad i fab a thair merch, Mr. a Mrs. Edwards.....	55
Englynion Beddargreiff.....	56
Anerchiad i'r Parch. R. D. Thomas.....	59
Y Wenynen.....	61
Beddargraff Carnhuanawc.....	62
Ar Briodas Mr. John Rees, a Miss Gwen Jones	63
I Talhaiarn.....	63
I Blas Dolgyn.....	63
Enwau Dynion.....	64
Caledi'r Amserau.....	65
Cwrw y Bala, 1803.....	66
Yr Eira	66
Englynion i ofyn Cwmpas i Humphrey Ellis, Gellilydan..	66
Psalm CXLVIII.....	67
Gloria Patri.....	69
Englynion i goffa am y diweddar Barch. J. Jones, M.A....	70
Englynion i gymdeithas lenyddol Machynlleth.....	71
Cywydd i goffa Mr. Hugh Pugh, Cefn y maes, Brithdir....	72
Englynion i Mr. William Humphreys, Llynlleifiad.....	73
Englynion ar briodas y Parch. E. Griffiths, Llanegryn....	75
Eto ar briodas Mr. Evan Jones (Ieuan Ionawr)....	75
Amryw o Emynau ar wahanol destynau.....	76
Salm XXVII. 4.....	76
Diarhebbion III. 29, &c.....	76
Esau LII. 13.....	77
Esau LV. 10, 11.....	78
Salm LXXIII. 28.....	78
Eto ar fesur arall.....	78
Eto ar fesur arall.....	79
Ioan X. 11.....	79
Hunanymwadiad	79
Yr Ysgol Sabbothol.....	80
Priodas-Gerdd Lewis Williams, Ysw., Ieu., o Bronwnion....	80
Englynion i Gymdeithas Gwyr ieuainc Salem, Llynlleifiad.	81
Eto i Mr. David Jones, Fferyllydd yn Llynlleifiad..	82
Eto a gyfansoddwyd wrth wrando ar Mr. Edward Williams, o Fangor.....	83
Eto i Mr. J. J. Phillips, Tywyn.. ..	84
Carol Nadolig... ..	85
Cerdd Nadolig.....	87 a
89	
Englynion i Miss Dickins, Llynlleifiad.....	93
Eto i'r diweddar Mr. David Williams, Brithdir....	93
Eto i Syr R. W. Fychan, Bart., Nannau, 1824....	94
Eto i goffa Jane Pugh, Dol-y-serau-uchaf.....	95
Eto ar briodas y Parch. J. Ridge, a Miss Williams	96
Eto i dair merch Mr. a Mrs. Jones, Penbryn.....	96

DILIAU MEIRION.

—
A I L R A N .
—

PRIODAS-GERDD

SIR ROBERT WILLIAMS VAUGHAN, Barwnig, Nannau,
ag ANNA MARIA MOSTYN, Medi, 1802.

Cenir ar "Calon Derwen" (*Heart of Oak.*)

O fyddion a beirddion rai breinlon eu bryd,
Llinellwch benillien yn gyson i gyd,
I'r Marchog ardderchog aur-dorchog ar dir,
Gwr addwyn gwareddog pen Swyddog ein Sir,
Ein dyled sydd fawr mór wiwlon a'r wawr,
Iawn eirio i'n blaenorydd gân newydd yn awr ;
A'i briod ger bron lloer dyner lliw'r dòn,
Brig union bro Gwynedd fawr hynod ei rhinwedd
Prydferthedd fun lunïedd fwyn lòn ;
Cantorion o hyd na fyddwch yn fud,
Arfeddyd wir foddol gwnewch seinio 'n gysonol
Eu molawd yn frawdol un fryd.

Syr Robert w'r hybarch ei gyfarch a gawn,
A'i ganmol wrth reol yn unol a wnawn ;
Gwladgarwr rhagorol ufuddol yw fo,
O linach Fychaniaid pen breiniaid ein bro,

B

A'i wraig hawddgar lon buredig ei bron,
 O lin y Mostyniaid doeth hardd-blaid daeth hon ;
 Fe genfydd ein gwlad lwys odiaeth lesâd,
 Gwir roddiad gwawr addas gweinyddwyd priodas,
 Mewn urddas i bwrpas heb wad ;
 Preswylwyr ein pau sy'n hoff lawenhau,
 A'u llefau'n dra llafar gyson-gu a seingar
 Yn cerddgar bur hawddgar barhau.

Mae Fflint a Meirionydd 'run elfydd yn awr,
 Llawenydd cantorion sain fwynlon sy'n fawr,
 Am fod eu blaenoriaid gwawr euraid gwir yw,
 Mal cedyrn golofnau da 'u graddau deg ryw,
 Yn addfwyn eu nod a rhiaidd dân y rhod,
 A'n genau cyd ganwn, O c'lymwn eu clod ;
 Mae rhin eu mawrhad gwybyddir heb wad,
 Mewn cariad yn cyraedd dawn rhediad anrhydedd
 Uwch bonedd arglwyddaidd pob gwlad ;
 Cyd-oesi mewn hedd y b'ont hyd eu bedd,
 Uniawn-wedd yn Nannau a'u hil ar eu holau,
 Fel lliwgar rosynau ar eu sedd.

CAN

Ar ddyfodiad R. W. VAUGHAN, Ysw. (mab i'r diweddar
 Farwnig) i'w oed Mehefin 25ain, 1814.

Mesur :—Priddgalch Gwyn (*White Chalk.*)

De'wch hyfryd-lon fawrddysg feirddion,
 Camrau dewrwyeh Cymru dirion,
 Dewisolion da eu swydd,
 Peroryddion a cherddorion

Datganyddion llawn gorchestion,
 Telynorion rhadlon rhwydd,
 Neselech yn awr o fawr i fân,
 Adseiniwch newydd gelfydd gân,
 I ROBERT WILLIAMES VYCHAN hylwydd,
 Llew mawr enwog, llyw Meirionydd,
 Haeddai beunydd glodydd glân.
 Chwi feibion Gomer eurber iaith,
 Rho'wch iddo barod fawrglod faith:
 Iawn waith union doed y mawrion,
 Gwerin ddyinion a thylodion,
 O un galon at y gwaith.

Mae mawr lawenydd yn Meirionydd,
 Gweled cynydd ail Farchogydd,
 Enwog lywydd yn ein gwlad;
 Yr hwn a erys yn flaenorydd
 I'r gwerinos, ac arweinydd
 Pan y derfydd dydd ei dad.
 Aer Nannau fawr mewn enw a fydd,
 Yn mhlith marchogion rhadlon rhydd,
 A bydded beunydd ini 'n benaeth,
 Ac yn darian i'n gwladwriaeth,
 Heddyw daeth i'w odiaeth ddydd.
 Ei barch a'i ryfedd fawredd fo,
 Wr llon ei bryd yn llenwi'n bro,
 A'i eppil etto fyddo i feddu
 Rhandir helaeth yr hen deulu,
 Tra bo Cymru'n dal mewn co'.

PENILLION

Ar briodas R. W. VAUGHAN, YSW., Nannau, a Miss F.

M. LLOYD, o Ragat, Gorphenaf 8fed, 1835.

Mesur — *Merionethshire March.*

Llawenhewch oll yn awr wele wawr oleu wych,
Fe glywir drwy'n gorawr sain clodfawr swm clych ;
Cyflwyned y beirddion anrhegion yn rhwydd,
Sef cyson ganiadon dillynion da'u llwydd,
I'r arwr mawr iawn ardderchog ei ddawn,
Aer Nannau rin enwog yn rhywiog mawrhawn,
Yn gyfiawn gwnawn gofio ymuno i ro'i mawl
I'w briod fwyneiddwych, lloer geinwych lliw'r gwawl,
Dyma'r dydd clodrydd clau, dyroddwyd dan yr iau
Foneddion rhinweddol,—urddasol yw'r ddau ;
Mae rhadau mawrhydi yn gweini 'n ddigoll,
Er rhoddi dywenydd o newydd ini oll.

Cydganed beirdd Gwynedd bêrgleredd bur glod
Ar ddydd y briodas mae'n addas y nod,
Yr awen fwyn rywiog yn fywiog a fo,
I ganmol blaenoriaid pen breiniaid ein bro ;
Hil *Fychan* fo'n fawr fal llwythau ar y llawr,
Unedig â'r *Llwydiaid* anwyliaid yn awr,
Y plant mâl planhigion, yn llon fyddo'n llu,
A'r wraig fel gwinwydden ddoeth addien i'w thy—
Dymunwn bob pryd, eu bod yn y byd,
Yn meddu dedwyddwch a heddwch o hyd ;
Ac hefyd gyrhaeddyd iawn wynfyd y nef,
'Rol gadael y ddaear yn llongar eu llef.

ANERCHIAD

At y Doctor E. P. ANWYL, Brynadda, ger Dolgellau,
Hydref 31, 1825.

Gan y diweddar R. AB GWILYM DDU.

Y Doctor Price Anwyl, rwy'n disgwyl y daw
Hyd attoch yn fusgrell fy llinell o'm llaw,
I wneuthur penillion pur foddlon wyf fi,
Os parant ddywenydd gwych hylwydd i chwi.

Chwi ro'isoch gynghorion i gleifion ein gwlad,
A pharod gyffyrïau lwys olau lesâd,
A'ch ffordd yn dra medrus i'r rheidus eu rhoi,
A deif bob afiechyd a phenyd i ffoi.

I Ddoctor synwyr-gall mewn deall a dysg,
Sy'n attal clefydon, fel moddion i'n mysg ;
Nid ydyw cân benrhydd un arwydd i ni,
Ond megys coeg ddirmyg i'w chynyg i chwi.

Os medraf wrth ganu enynu fy nawn,
A'ch cael i Eifionydd fawr lonydd fro lawn,
Cewch bob rhyw groesawiad, hyfforddiad yn ffri,
A bir o'n haberoedd a'n llynoedd yn lli.

Gadewch y Ddolgellau a'i maglau, wr mwyn,
A deuwech wrth reol fesuroi fy swyn ;
Cymerwch eich rhyddid rhag gwendid i'm gwaith,
Na fyddwch anfoddus wr dawnus i'r daith.

Cewch wel'd o Garnfadryn i'r Moelwyn dir maith,
Yr Eifl a'r Eryri yn wisgi 'r un waith ;
A gweled y llongau yn chwarau'n dra chwyrn,
Yn myn'd dan eu mentyll, mâl cestyll eu cyrn.

Cawn olrhain hen achau ein tadau'n gyntun,
 Cawn ddarllen Cywyddau, benborau bob 'un ;—
 Os rhodiwch ein trefydd a'n bröydd mewn bri,
 Gwel'd pont ar *Borthaethwy* a *Chonwy* gewch chwi.

Cawn ddifyr ymgomio a rhodio'n ben rhydd,
 A son am farddoniaeth dda doraeth bob dydd,
 A chlywed yr adar môr gerddgar yn gwau
 Ar finion afonydd rhwng dolydd ein dau.

Cewch gerdded o gwmpas mewn urddas yn iach,
 Cewch hela 'sgyfarnog, dra bywiog dro bach ;
 Cewch ganlyn yr enwair heb anair yn bod,
 Os ceir at y tymor uwch Dwyfor eich dod.

Os caiff fy anerchiad wrandawriad ar dir,
 Cewch amryw gymdeithion enwogion yn wir—
 A pheth sydd ryfeddach nid hwyrach at hyn,
 Cewch glywed pêr araith, da waith DEWI WYN.

A T E B I A D

I'r anerchiad uchod gan MEURIG EBRILL.

Derbyniais anerchiad mewn cariad mwyn cu
 Gan Robert ab Gwilym y doeth-lym fardd Du ;
 Fe ddaeth eich llinellau heb rwystrau na braw,
 O ganol Eifionydd yn llonydd i'm llaw.

Am roddi cynghorion i gleifion eich gwlad
 Rwi'n foddlon o galon y mwynlon ŵr mad ;
 Pob Cyngor meddygawl fo buddiawl heb wad
 Oddiwrthynt ni chelaf, mi a'i rhoddaf yn rhad.

Mi gefais ddywenydd o newydd yn wir,
 Fy meddwl sydd hyfryd rwy'n d'wedyd ar dir;
 Wrth ddarllen a myfyr ac ystyr eich gwaith,
 Mi brofais drwy bleser, gu fwynder go faith.

I lais eich gwahoddiad a'ch archiad mwyn chwi,
 Derbyniad calonog a serchog roes i;
 Pan ddlelo hin wresog a rhywiog yr Haf,
 Ymwel'd ág Eifionydd yn ufydd a wnaif.

Gadawaf Ddolgellau 'n ddiamau ryw ddydd,
 Gan ddianc o'i maglau a'i rhwymau 'n ŵr rhydd,
 Rhag rho'i digalondid na gwendid i'ch gwaith,
 Hyd Eifion y deuaif nid ofnaif mo'r daith.

Hyfrydwch fy nghalon yn dirion bob dydd,
 Yw darllen gwaith beirddion hoff union eu ffydd,
 Ac olrhain hen achau fu'n uchel eu bri,
 Sydd orchwyl diddanus a melus i mi.

I wel'd y bont newydd foreuddydd yr awn,
 Ac aros i'r perwyl hyd noswyl a wnawn;
 Cydsyllwn yn fanwl heb drwbwl am dro,
 Ar ansawdd ragorawl hyfrydawl y fro.

Rwy'n hoffi 'r anrhydedd yn rhyfedd dan rhod,
 I weled y llongau a'r balau sy'n bod,
 Yn nofio'n wastadol mewn rheol ar hynt,
 Yn ngwyneb pob tywydd a'u gogwydd i'r gwynt.

'Rwy'n caru helwriaeth yn odiaeth ddi-nam,
 Mi ddweda i chwi'n ebrwydd o herwydd pahan;
 Os dygir i'r ddalfa gu helfa go hardd,
 Fe'i trwsir yn seigiau ar fyrddau'r hen fardd.

Caf wel'd rhyfeddodau ugeiniau'n ddigel,
 Pan ddelwyf i Eifion, gwlad meillion a mel,
 Ac eistedd ar fryndir uwch glasdir y glyn,
 I ddarllen di-lediaith deg waith DU A GWYN.

GALAR-GERDD

Am Mr. RICHARD JONES, Llwyngwril, yr hwn a fu farw
 Chwefror 18fed, 1853, yn 73 mlwydd oed.

Ton:—Fy Anwyl Fam fy hunan.

O! angau pa'm yr aethost ti
 Yn elyn i ddynoliaeth?
 Ai trosedd Addaf, ydoedd ben
 I'w had yn Eden odiaeth,
 Fu'n achos iti ar y llawr
 Fwriadu 'th fawr ddifrodaeth?

Dinystrio wnest holl ddynolryw
 Fu 'rioed yn byw a symud!
 Neb, neb ond dau flynyddau'n ol
 Ga'dd yn ddiangol ddiengyd,
 Rhag dioddef marwol ergyd caeth
 Dy dreiddiawl saeth ddychrynlyd.

Yn fynych ar ein gyrfa frau
 Yr wylwn ddagrau heli,
 Am fod cyfeillion gwiwlon gwyl,
 A cheraint anwyl inŷ,
 Yn cael o hyd gan angau mawr,
 Eu tori i lawr i'w beddi.

Ow ! Richard Jones, pregethwr rhydd,
 Oedd bur dduweinydd unwaith,
 A aeth yn fud i gryd y gro,
 Ni welir mo'no eilwaith ;
 Ni chlywir chwaith mo'i barabl llawn,
 Fu'n rhwyddaidd iawn mewn rhyddiaith.

Bu'n hyfryd genym lawer pryd
 Ymgasglu 'nghyd yn dyrfa,
 I wrando arno 'n traethu gwerth
 Yr Aberth ar Galfaria ;
 Pan rhoddodd Crist ei hun yn Iawn,
 Y Tad a lawn foddiona.

Er rhoddi 'i gorff yn ngwaelod bedd
 I orwedd gyda 'r meirwon,
 Ei enaid glân yn seirian sydd
 Mewn pur lawenydd union,
 Yn moli'r Oen a'i gariad rhad
 Yn ngolau 'stad angylion.

Ffarwel y parchus athraw pur,
 A 'i ddinam eglur ddoniau,
 Diweddodd daith y fuchedd hon
 Yn ingawl loesion angau ;
 Ni chlywir mwy mo'i araith glir
 Na 'i goethion wir bregethau.

Pan ddel yr adgyfodiad mawr,
 Ei gorff o lawr y gweryd
 I'w uno 'n bur a'i enaid byw,
 Yr Arglwydd Dduw a'i cyfyd ;
 I gydfwynhau llawenydd mād
 Byth, byth yn ngwlad y gwynfyd.

ANERCHIAD

Serchlon i ELEN MEIRION.

Ton :—*Belisle March.*

I ELEN MEIRION gyraf dirion
Anerchion pur yn awr,
Gan lwyr obeithio 'n lle 'th dramgwyddo
Y gwnant dy foddio'n fawr ;
'Rwyf heddyw'n llawen 'wel'd mor drylen
Yw ffrwythau d'awen di :
Mae pob arwyddion y daw 'th ganiadon
I gyson freintlon fri ;
Boed iti gael mwynhad,
O burder lleufer llád,
Gan ddewis dinam dda destunau,
I byncio mydrau mäd ;
A gwilia ochri i gyfansoddi
Rhyw ogan-gerddi gwael,
Ni chei anrhydedd byth wrth goledd
Rhyw faswedd mör ddifael :
At gyrhaedd mawredd maith,
A theilwng fri' i'th waith,
Astudia reol gramadegol
Rhin ethol yr hen iaith ;
Dy odlau cywir felly berchir,
Goleddir yn ein gwlad,
A'th gu iawn archwaeth ddoeth gynyrchion,
Yn rhwyddlon ga fawrhad.

Y LLYSFAM DDRWG.

Gan GUTYN EBRILL.

(*Teimlad geneth ymddlifad.*)

Ton :—Yr Amser gynt.

Fy nghyd ieuenctyd d'owch yn rhes,
I wrando 'm hanes I,
A'r hyn a wna fy "Llysfam" ddrwg,
Un lawn o w'g yw hi.

Yr oeddwn gynt yn eneth lon
A'm pwys ar fron fy mam,
Mawr ydoedd ei gofalon hi
Rhag byth i mi gael cam.

Yn morau f'oes hoff chware' wnawn,
Ni chawn un adeg chwith,
Cawn "ddòli" fach a blodau fyrdd
Wrth rodio ffyrdd y gwllith.

Gofalai mam am danaf fi
O gyrau 'r lli' a'r llaid,
Hi 'm dysgai i fyn'd o gam i gam
I edrych am fy nhaid.

Hi wnaeth fy 'fforddio lawer tro
Do, do yn llyfyr Duw,
Yr hwn sy etto ar ei hol
Yn rheol imi 'fyw.

Ond, galar yw adgofio hon,
Y fron sy 'n mynd yn friw;
Er maint a wylaf ar bob cam
Fy anwyl fam nid yw;

Pan af yn ol i dy fy nhad
 Daw brad i'm calon brudd,
 Wrth gofio am y dyddiau gynt
 A'r helynt heddyw sydd.

Ni sonir mwy am enw mām,
 Na fydd ryw nām yn ôl,
 Ni roddant iddi nodwedd gwell
 Na “ dynes hell a ffôl.”

Edliwia imi ffyrdd fy mam
 A'i cham arferion chwith,
 Nes bydd fy nagrau dwys ar led
 Môr amled ag yw 'r gwllith.

Symudwyd pobpeth 'fewn y tŷ,
 A'm llysfam sy ar sedd,
 Goruwch y fân lle magwyd fi
 'Fe dorodd hi fy hedd.

Hi daflodd fy nhenganau oll,
 Ar goll aeth llawer tlws,
 Fy ngemau heirdd a'm “ cadair ” dlos
 A fwriodd dros y drws.

A llun fy mam oedd ar y mur,
 Ow ! gur, hi aeth ag ef
 I'w ddarnio a'i hau mewn erchyll hynt
 I bedwar gwynt y nef !!

Os d'wedai ddim i'w herbyn hi
 Ceryddir fi yn fawr,
 A chefais ergyd draws fy mhen
 Mewn sèn, do lawer awr.

Dioddefais eisiau ambell dro,
 O, do, am lawer dydd,
 Ni roddai gysur im' na lles
 I wella'm mynwes brudd.

Feddyliwn nad oes teimlad merch,
 Na serch o fewn i fron
 Y ddynes a all gario gwg,
 A bod mòr ddrwg a hon.

Ni welaf annedd îs y nen
 I roddi 'mhen a 'mhwys,
 Ond yn y fynwent wrth y llàn
 Lle'm rhoddir dân y gŵys.

Caf orwedd yno gyda 'mam—
 O! mam! mae'th enw mwyn
 Yn pylu y picellau dur,
 Anghofiai'r cur a'r cwyn.

Cawn aros yno'n hir mewn hedd,
 Heb gledd na miniog loes,
 Na gofid o un cwr o'r byd,
 Fel bu ar hyd ein hoes.

O tyned Iôn o'm "Llysfam Ddrwg"
 Y gwg a phob rhyw gam,
 Fel caffo hi fendithion rhad,
 A meddu teimlad MAM.

Y BARD D YN EI WELY, YN NOLFFANOG,
 TALYLLYN.

Hyfryd fân yw Dolffanog—i brydydd
 Mae'n baradwys enwog;
 E gân mòr heinif a'r gôg—
 Ni lethir calon lwythog.—G. E.

MAWL-GERDD I

W. W. E. WYNNE, YSW., A. S. dros Swydd Feirion
am ei haelfrydedd gwladgarol yn rhoddi tir claddfa i
Ymneillduwyr Dinas Mawddwy, &c.

Ton :—*Belisle March.*

Yr hardd bendefig dyrchafedig,
Caredig cywir iawn ;
O linach lonwedd Gwynniaid Gwynedd,
Rhai doethedd mawr eu dawn.
Gwiw-fyg ofydd a naturiaethydd,
A doeth ladmerydd mawr,
Llew mirein-wych, llyw Meirionydd,
A'i llywydd ar y llawr ;
Eich enw yn ddi-wad sydd glodfawr yn ein gwlad,
Hylaw benaeth o hil y bonedd,
Môr rhyfedd fu eu mawrhâd ;
Rhai elusengar di-rodres-gar,
A hawddgar drwy eu hoes ;
Heirdd a selog urddasolion,
Cariadlon fwynlon foes ;
A chwithau ŷdych hael, a ffyddlon ŵr di-ffael,
Yn gwasgar rhoddion i dylodion,
Efryddion gweinion gwael.
Y Llanegryniaid a'ch llon goronant,
A llefant am eich llwydd,
Dymunant i chwi bob daioni a gwir fawrhydi'n rhwydd.

Eich hardd-wych urddas, a'ch coeth gyweithas,
Yn mhob cymdeithas deg,
Sydd dra rhagorol fel gŵr cyfrifol,
Da freiniol a di-freg :
Pan eich canfyddir fe lawenychir,

A chyd ddyrchefir chwi,
 Cewch barch a mawredd gan wreng a bonedd,
 Ein doeth arabedd ri.
 Mae PENIARTH fawr heb wad,
 Lle hardda' drwy'r holl wlad,
 I chwi yn odiaeth hen dreftadaeth,
 Ac etifeddiaeth fad.
 A MALLWYD dirion le hyfrydlon,
 I ddynion ferthlon fyw,
 Sydd i chwi'n siriol fuddiol feddiant,
 Tàn bendant warant wiw.
 Ac hefyd yn ddi-gudd, ein gwron rhadlon rhydd,
 Eich gwaith clodadwy yn NINAS MAWDDWY
 Yn anmhrisiadwy sydd.
 Y dinas-yddion, a'r holl blwyfolion,
 Yn rhwyddlon a'ch mawrhânt,
 A diolch hefyd, ar bob enyd,
 Yn unfryd i chwi a wnant.

Eich gweithred gyhoedd ganmola miloedd,
 Yn lluoedd ar y llawr ;
 A chan bob teulu yn ein talaeth,
 Chwi gewch ganmoliaeth mawr.
 O rydd ddewisiad chwi a roddasoch,
 Ni wrthodasoch dir
 Yn fynwent gyson, i gladdu'r meirwon,
 Fe glywir son drwy'r Sir.
 Ac am y weithred hon fe brofa pawb ger bron
 Eich bod yn hawddgar gymwynasgar,
 Wr tringar llachar llon ;
 A'r oes ddyfodol a wna eich canmol,
 Olynol yn ddi-lyth, ●

Ac wedi eich claddu chwi a'ch teulu.
 Eich clod a bery byth.
 Boed i chwi ar eich taith
 Bob llwyddiant mwyniant maith ;
 Fel cynrychiolydd Sir Feirionydd,
 Yn gelfydd gwnewch eich gwaith ;
 A phleidiwch gedyrn ddiwygiadau,
 Iawnderau gorau i gyd.
 Yn genad HEDDWCH doeth ymddygwch,
 Tra byddwch yn y byd.

CAN

I. ofyn LLWY BREN, gan y diweddar LEWIS MORRIS,
 Ysw. (*Llewelyn Ddu o Fon.*)

Cenir ar "Arglwyddes drwy'r Coed." (*Through the woods, Lady.*)

Attolwg CYDWALAD clau fwriad clyw fi,
 Diwegi dy agwedd wyt weithian yn ddoethedd,
 Dy glod a iawn gludir, a daenir hyd Wynedd,
 Dy ddyfais, dy ddawn synwyr llawn sy'n wellhad,
 Yn peri anrhydedd a gwledd yn ein gwlad ;
 Dy ddoethaidd amcanion swydd enwog sydd union,
 I ni yn ddrych golau gwych ufuddwch o foddion,
 Pob dyn aiff mewn braw os daw ar ddwys daith,
 Fe syna yn ddwys yno pan welo dy waith,
 Fod bachgen o Gymru i'w ryfeddu môr faith.

Am naddu yn rhinweddol naturiol wyt ti,
 Da y lluni dull hynod haelion eulunod

Ar brenau yn gerfiadau rhyw foddau yn rhyfeddod ;
 Pe buasai dy hynt yn y byd gynt yn bod
 Yn nyddiau'r "Pigmaelion" tra glewion trwy glod,
 Ni buasent cnd ffyliaid a'u dull megis deilliaid,
 Wrth ganfod gwaith, moddus maith, didolwaith
 CYDWALAD.

Er maint oedd eu clod gwn yn bod gan y byd,
 Nid oedd eu cywreinwaith a'u harddwaith o hyd,
 Wrth dy waith doethwedd ond gwagedd i gyd.

Ni ddichon fy 'madrodd iawn adrodd a wnei .
 O wyrthion di warthus, mewn cynydd amcanus,
 Yn gywrain waith celfydd a d'eunydd daionus,
 Am un gorchwyl gwych, maith ddrych yma a thraw,
 Etholais o'th haelwaith da lyfnwaith dy law ;
 A hyn trwy wedd hynod ryw fodd sydd ryfeddod,
 A'm gyrodd i, brynta bri, heb ochel i bechod ;
 Rwy'n chwenych dan y nen, LWY BREN haela' bri
 I'm meddiant ŵr moddol o'th ddoniol waith di,
 Bydd gorchest o'r gorchwyl gain anwyl gan i.

Os hapia iti gofio am lunio imi lwy
 Brofadwy brif odiaeth gu raenus gywreinwaith,
 A'i chael yn dra chelfydd o'th ddedwydd ddiwyd-waith,
 A llunia hi'n hardd i'r bardd fwrw i'w big
 Bob peth a fo'n addas da ddyfais di ddig ;
 A gweithia hi'n gywir, llwy wiw-glws ddull eglur,
 Deg raen di grych gerfiad gwych a drych i'r edrychwyr ;
 A'i phen yn un hafn lydan gafn led y geg,
 A llonwych droed lluniaidd hyfrydaidd di freg,
 I borthi gwep erthyl rwy'n ei disgwyl hi'n deg.

I'th goffa pan gaffwy' y llwy yn fy llaw,
 Modd hylaw mi hwylia i diroedd y deha',

Ac ar y "cawl erfin" yn sydyn mi osoda'—
 Pan elwy' i dir Mox dyrys dôn dros y dwr,
 Mi lynca'u holl "frwchan" a'u "sucan" yn siwr;
 Fe dderfydd "maidd" Arfon — *good-morrow* "uwd
 Meir-ion,"

Mi âf yn rhoi os deil fy mol rhyfeddol o foddion;
 A siawns nad â i'n dew, rho'i yn lew yn 'rhen lèn,
 Hir oes i *Gydwalad* da synia di sen,
 I minau boed iechyd llon bryd a'm *llwy bren*.

CAN

I'R CYMREIGYDDION YN LLUNDAIN, gan FRANCIS JONES,
 Tywyn, Meirion.

Mesur :—"Calon Derwen."

Gwrandewch Gymreigyddion rai gwychion eich gwedd
 Sy'n caru iaith Gomer drwy fwynder hyd fedd;
 Cofleidiwch, coleddwch, arferwch hi'n faith,
 Rhag digwydd heb hyny 'bydd gwyrni'n eich gwaith;
 O cedwch i'ch co' hen brif iaith eich bro,
 Mae'n rhoddi mawr heddwech, i frodyr hyfrydwch,
 Mae'n fôr o ddifyrwech a thriniwch ei thro;
 Iaith weddol, iaith wir, iaith barod, iaith bur,
 Iaith lawn o ddolena', iaith Gomer, iaith Cambria,
 Tŵr gwiwlon, tir Gwalia, a'i dora' fal y dur.

Er digwydd i'r Saeson, gŵn duon, eu dod
 I Frydain hen fradwyr, trybaeddwyr mewn bod,
 Gwneud lledrad o'n dinas oedd gynes ei gwedd,
 A'n gwledydd toreithiog, rai gwllithog mewn gwledd.

Cadwasom ein hiaith, yn gryno ddi-graith,
 Coleddwn, cawn lwyddiant—cawn dânau, cyd-dynant,
 Cawn gariad, cawn geraint, cawn feddiant fo faith,
 Cawn fwynder, cawn fudd, o'i dilyn bob dydd,
 Cawn lonach llawenydd—dawn wyneb dywenydd,
 Cawn bob nos ryw newydd, mae'i rhyddid yn rhydd.

I dad y gymdeithas sydd gynnes ei gwedd,
 Boed iechyd a llawnder, da fwynder hyd fedd ;
 I'w llywydd boed llwyddiant, a ffyniant i'w ffydd,
 I gynal iaith Gomer, hardd, dyner bob dydd ;
 O gwyliwch rhag gwall rhwysg balchder heb ball,
 Y gelyn dig'wilydd rhydd floesgni a Seisnigrwydd,
 Heb wrido mae'n w'radwydd i'r celfydd ddyn call ;
 Gwell cynal rhag cam—iaith fwynaid eich mam,
 Iaith Gomer a gym'rwyd i'ch rheoli ar yr aelwyd,
 Mewn moethau eich maethwyd, a rhoddyd hi i'ch rhan.

Yn awr fy nghyfeillion, wyr dewrion mewn dysg,
 Chwennychwn i chwi lawnder a mwynder i'ch mysg,
 Cael telyn a thannau a mwynder y'mhob modd,
 Areithio Cymreigyddiaeth yn berffaith o'ch bodd ;
 Meddyliwch bob tro am fryniau'ch hen fro,
 Sef gwlad eich genedigaeth sy'n llawn cymreigyddiaeth,
 O'i herwydd boed hiraeth da glanwaith dân glo ;
 Tra llywydd a llen cyd bynciwn bob pen,
 Cyd-ganwn ddigonedd—wir felus orfoledd,
 Cymraeg hyd y diwedd—wyr mwynedd, Amen.

ENGLYNION

I GAERLLEON GAWR.

Gŵyr lluoedd am Gaerlleon,—urddunawl
 Hardd ddinas y Brython,

Ond och hi aeth, saeth yw sôn,
Er's oesau'n eiddo'r Saeson.

Caer ydoedd yn lle cariadus,—gorwych
A gwir anrhydeddus,
A dewr oedd y cawri di rus,
A'i cadwai'n ddihocedus.

A theg emawg iaith dda Gomer,—anwyl,
Ga'i yno ei harfer,
Nid coegaidd floesgaidd aflêr,
Wynebog iaith anwiw-ber.

Daeth o bell, mewn dichellion,—ryw fagad
O ryfygus ladron,
Dan wthio dwyn a wnaethon,
Y ddinâs iach ddawnus hon.

Ei chaerau hardd-wych euraid—faluriwyd
Gan afler estroniaid,
Twyllodrus arswydus haid,
A gwallus ffyrnig wylliaid.

Eu dieffig fwriad aflan,—hyll wancwn,
Oedd llyncu y cyfan,
Pe medrant rheibiant i'w rhan,—
Drefydd y byd bedryfan.

GWESTY BWL Y BALA.

Nid lle dŵl yw BWL y BALA,—menyn
Geir mewn munyd yma,
A bir, a chaws, a bara,
I laeth, a dwr—lle eitha da.

Gwraig ddestlus hwylus hoywlon—am orchwyl,
 A merched cariad-lon :
 A thêg yw coffa'r waith hon
 Am rinwedd y morwynion.

Rhai eirioes o'r rhyw orau—di-soriant
 A siriol wynebaw ;
 Haeddant dân rhod glod yn glau
 Gwiwrwydd, mewn mwyndeg eiriau.

ENGLYNION

I FEIRCH A GWAS Y RHIWLAS.

A gyfansoddwyd gan y Bardd wrth gael ei gludo gan-
 ddynt i Lanuwchllyn yr 17eg o Fehefin, 1853.

Rheolaidd i feirch y RHIWLAS—heb ballu
 Gwnaf un pill o bwmpas,
 Tri englyn gwedyn i'r gwas,
 A nyddaf mewn trefn addas.

Meirch gwiwdeg, mawr-wych egwydydd—tynant
 Nes tanio'r palmentydd ;
 Carlamant, rhwygant yn rhydd
 A ffyrstiawl drwy 'r fforestydd.

Sion William sy iawn hwyliwr—a gwympaidd
 Gampus bedrolfenwr ;
 Da was, doeth, sobr di ystwr,
 A gwaraidd bwylllog yrwr.

Llewaidd heb arfer llwon——trafaelia
 Trwy fil o beryglon,
 A'r meirch a wnant ei eirchion,
 Ar d'rawiad llygad yn llon.

Tybiwyf na cheir yn Meirion——gywirach
 Gyrwr di-ddichellion ;
 Ar air rwy'n credu 'r awr'on
 Na wel Sais un ail i Sion.

DAU ENGLYN

I BONT NEWYDD TALYLLYN, MEIRIONYDD.

Pont eurawg, gaerawg goryn,——gwaith Iago
 Goeth, wiw-gar saer hydyn ;
 Pont dda ollawl—pont ddillyn—
 Pont i wellhau pwynt Talyllyn.

Pont lungar hawddgar yw hon,——gu-wastad
 O flaen gwesty tirion ;
 Ffraw dani yn ffrwd union,
 Rhed y dwr rhuadwy 'i dòn.
 Hydref 31ain, 1853.

HEN GROG-BREN

CARCHARDY DOLGELLAU, YN CAEL NEWID EI SWYDD.

Y Crog-bren o'r nenawr a dynwyd i lawr,
 Fe'i gwnaed gynt i grogi yr hen "Hwntw Mawr"—
 Ac weithion heb arswyd fe'i codwyd mewn cell,
 Śwydd newydd roed iddo, ddi-guro ddau gwell.

Ni chrogir yn Meirion ddim lladron rhag llaw,
 Na chreulon, anhirion lofruddion dan fraw—
 Alltudir hwy bellach fel bawiach y byd,
 I ganol gwlad estron, yn gaethion i gyd.
 Ebrill 25, 1853.

ENGLYNION

I MISS MARY RICHARDS, am ei dewrder yn dâl drwg
 weithredwr ydoedd wedi tori clôau, ac ar ddianc
 allan, yn Ngharchardy Dolgellau.

Mwy o orchest a wna merched—lliwgar
 Fo'n llygad agored ;
 Pellach heb gel gwnant weled
 Na rhai meibion gwreiddlon gred.

Mair enwog a'i mawr rinau,——wech eurddeg
 Carchardy Dolgellau,
 Haeddai hon glod heddyw'n glau
 Gan ddynion âg iawn ddoniau.

Di-ball y chwiliodd allan,——ddichellion
 Erchyllig leidr aflan ;
 A'r modd 'dyfeisiodd y fan
 I ddiengyd yn ddi-yngan.

Mair landeg, ffriwdeg a ffraeth,——ddillynaidd
 A llawn o wybodaeth,
 Canfod, ac adnabod wnaeth,
 Ei fwriad drwg a'i fariaeth.

Rhedodd y feinir hydyn—yn agos
 I'r ffyrnigaidd adyn ;
 A'i rydd egwydydd gwedyn
 Rwymwyd, gadwynwyd yn dyn.

Iechyd i Fair—wyched a fu——neidiodd
 Gan odiaeth weithredu,
 Daliodd y blaidd, delffaidd, du——
 Chwerwodd i'w ail garcharu.

Hir einioes i Fair anwyl——a flaenodd
 I gyflawni'r gorchwyl,
 Parod yw ar bob perwyl,
 I wneud da mewn hynod hwyl.
 Ebrill 26, 1853.

ERAILL

I MR.* OWENS Y CEIDWAD A'R TEULU.

Llewyrchus wron llachar,——cu odiaeth
 Yw ceidwad y carchar,
 Gwr rhydd, gwych—pob gradd a gâr
 Syw agwedd *Owens* wiwgar.

A'i wraig anwyl rywiog union——heinif
 Sydd hynaws a thirion,
 A'r plant iachus, lliwus, llon,
 Hygar, sydd fel planhigion.

Heddwch fo yn eu haddef,
 Dàn nawdd a bendith Duw nef.

ENGLYNION

I'r "CAMBRIAN HOTEL," gwesty newydd Mr. W. JONES,
Llangollen.

Gawried pawb oll yn Llangollen,—heddyw
Mae'n hawdd bod yn llawen ;
Taenwyd cariad llad fel llen,
Yn fwgwd ar genfigen.

Wele hynod lawenydd,—agorwyd
Gwiw eirian dŷ newydd ;
Llangollen is wybren sydd,
Orwech iawn ar ei chynydd.

Gwesty na cheir ei gystal—yn fynych
O fewn i'r un ardal,
A gwron hardd goreu'n Iâl,
Gonest sydd yn ei gynal.

Gwelliant a fydd i Langollen,—ac elw
Ddwg eilwaith i'w berchen,
Cyn hir ni arswydir sen,
Cura brif westy CORWEN.

CAMBRIAN têt, porth y Berwyn—ei gelwir,
A golwg pur ddillyn
Sydd arno, pan delo dyn
I'w neuadd, tyr ei newyn.

Da iawn yma dan amod—heb oedi
Ceir bwydydd a diod,

Hwyr a borau 'n wir barod,
A thrwy 'r dydd beunydd mae'n bod.

Maethlon wresogion seigiau—yn helaeth
I iawn hulario 'r byrddau,
O waith cogydd clodrydd clau,
Ddwys gludir yn ddysgleidiau.

Di-wgus weinidogion—weinyddant
Yn addas a ffyddlon,
Oll un fryd a llawen fron,
Gweis tawel i'r gwestyon.

Môr heini' mae'r morwynion,—gwiw nodwedd,
Yn gwneud eu gor'chwylion ;
Pob un i'w lle—pawb yn llon,
Fedyliawl ufuddolion.

Gleiniawg welyau glanwaith—i orwedd
Ga arwyr wrth ymdaith,
Ni wel neb wyneb unwaith
Gwelw llwyd, drwy gael gwely llaith.

Puredig barch priodol—di-anair
Gaiff dynion cyfrifol ;
A'r bawaid rai ffaidd ffol
Brocheiddiawg, gaiff barch haeddol.

Gwelled bydd SIAN a GWILYM—eu miloedd
O ymwelwyr erddrym,
I'w hanedd drwy ryfedd rym
Hidlant eu haur yn edlym.

ENGLYNION

A wnaed wrth syllu ar arwydd, (*Sign*) ar fur gwesty,
yr hwn a elwid "Red Lion," ac ydoedd wedi
ei lunio yn hynod o anghelfydd.

Ai llun cath, ai ynte llun ci—neu lew,
Neu lwynog, neu ddyfrgi,
Neu hwch dōrog yn crogi
Ar wâl fawr a welaf fi?

Neu hyll, foel, deryll fŷl deuryw—gwrthyn,
Neu gøeg erthyl lledfyw?
'Dall un brutiwr, bostiwr byw,
Byth dd'wedyd llun beth ydyw !!

Llaw anhydyn y lluniedydd—anoeth,
Oedd hynod anghelfydd;
Gwael ydyw—pawb drwy'r gwledydd
A'i gwelo, i'w feio fydd.

ENGLYNION

O glod i "GLWB WASHINGTON" neu y "CLWB DU,"
yn Nolgellau.

Clo heb dwyll yw y "Clwb Du"—i attal
Diotwyr yn Nghymru,
Rhag pechod o feddwdod fu
Am oesoedd yn gormesu.

Da ydoedd, hawdd yw d'wedyd,—ei lunio,
 Pair ddylanwad hyfryd ;
 Dwg feddwon, afradlon fryd—i sobrwydd,
 Mae'n gwreiddio'u hawydd mewn gwir ddyhewyd.

Gwelir yn ddigon golau—ei effaith
 Wiw hoff yn Nolgellau ;
 Sobreiddiwyd, dygwyd degau—i 'mddidol
 Yn wir frawdol o'u hen arferiadau.

Gwnaethpwyd rhai fyddai'n feddwon —di-doriad
 A dyrus ynfydion,
 Yn barchus, ddawnus ddynion,
 Is haul, drwy'r gymdeithas hon.

Gwell moddion na gwallau meddwi—gafwyd
 Yn gyfan eleni ;
 Uno 'n gôr i glodfori—mae'r ie'nctyd
 Llon, iach, haelfryd—yn llawn o uchelfri.

Môr orwych yma'r awr'on—yr una
 Rhianod lledneision
 Gyda'r côr yn gantorion
 Mwyn-eiddgu, i fawrygu'r Iôn.

Gorwych mewn llais a geiriau—y canant
 Eu ceinion anthemau,
 Yn öofn â'u geneuau
 Yn llawn parch, nes lloni'n pau.

Eu mawr sêl anhefelydd,—gwên foddawg
 A ganfyddir beunydd,

Llais eu mawl pârseiniawl sydd
Yn alaw drwy'n heolydd.

Y "Clwb Du," ni bu yn bod—ei wychach
I ochel drwg meddwod,
Lleshad mawr, rhwyddfawr dân rhod,
Drwyddo'n bur, dreiddia'n barod.

Môr wiwlwys mae ei reolau—dinam,
Yn dwyn yr aelodau,
Er llwydd i bur rhwydd barhau
Yn frodyr un fwriadau.

Bydd i'r dorf yn drysorfa—hael ethawl
Helaethwych i'r eitha',
Aur yn dwr ac arian da
Heb omedd, gaiff pawb yma.

Mewn bri mawr bob awr y bo,—gan addas
Gynyddu a llwyddo,
Naws degwedd, nes diwygio
Holl feddwon, y freinlon fro.

ENGLYNION

Ar ddyfodiad MISS MARY JONES, âeres yr Hengwrt
Uchaf i'w hoed, y 15ed o Hydref, 1840.

Wele ! newydd ddydd a ddaeth—yn wiwdeg
I wneud coffadwriaeth,

O degwych enedigaeth
Ac oedran, hoff rian ffraeth.

- MAIR wèn yn ngwlad Meirionydd,—ni welwyd
Anwylach merch ddedwydd,
MAIR dêg! hawddamor i'r dydd
Eich ganed—mawr fo'ch cynydd.

Cofier mil wyth cant cyfan—a deugain
Mewn da agwedd seirian,
'Pymthegfed dydd, gloywddydd glân,
O Hydref, daeth i'w hoedran.

Llwydd i chwi, a bri ger bron,—a phriod.
Hoff rywiawg a thirion,
A phlant hawddgar, lliwgar llon—
Siriol, ac iachus wryion.

DAU ENGLYN

I ddwy ferch y diweddar Mr. J. JONES, Skinner,
Dolgellau.

Hynaws, a theg yw Hana'—hoff anwyl
Un ffunud ag "Efa,"
A chafodd Ann, ddiddan, dda
Synwyr uwchlaw "Susana."

Gweddaidd, arafaidd wryfon—di-dwyll
Nodedig o ffyddlon ;
Dwy chwaer hawddgar, liwgar lôn,
Firein-wych heirdd forwynion.

ENGLYN

I dair merch Mr. JOHN JONES, Cottage, Llanelltyd.

Hoff rian seirian yw Sara—a'i chwaer

Wech eirioes Eliza,

A geneth hardd ddi-gardd dda,

Lân, araul, yw Leonora.

DIOLCHGARWCH

I MISS LAURA GRIFFITH, Ty'n'rardd, Llanelltyd,
am anrhegu'r bardd â ffon.

Y lwyr graffus Laura Griffith,—rasol,

A roes im' ffon newydd

O waith braf "Morgan Dafydd,"

Gwanar yr oes am gân rydd.

Ffon gu, iesin, a phen gosod—gwympawg,

• Mae'n ffon gampus hynod ;

Ffon erfai, ryglyddai glod

Peraidd, gan fydrydd parod.

Ffon gywrain, firain i Feurig,—luniaidd

Ffon lanwaith, nodedig ;

Ni wel bardd mewn gardd, na gwig.

Lathraidd law-ffon môr lithrig.

Diolch it fy chwaer dawel,—ddi-anair,

A gwiw ddoniau uchel,

Am ffon gnapiog ddiogel,

Dàn gamp, medd pob dyn a'i gwel.

Ebrill 12fed, 1853.

A N E R C H I A D

A chyngor i MISS LORA GRIFFYDD, ar ei mynediad
i'r America o Ddolgellau, Ebrill 10ed, 1853.

Mesur :—Morwynion glân Meirionydd.

Ffarwelio rwif a chalon brudd
A Lora Griffydd dirion,
Sy'n myn'd hyd ehwyddawg frigawg frau
Ymwriawl dônau mawrion,
Yn rhian ffraeth, er gwaeth er gwell,
I Feric bell o Feirion.

Dymunwn iti ar dy daith
Oreudeg berffaith rwydeb,
Na foed i dwrf na chynwrf chwâ
Gorwendôn, na gerwindeb
Ystormydd trymion o un rhyw
Edwino lliw dy wyneb.

A phan gyrhaeddych ben dy daith,
Dy fuddiol waith a fyddo
Ymwasgu â chyfeillion gwâr
A wnel dy gyfarwyddo,
A'th arwain i gynteddoedd cu
Diogel dŷ Duw Iago.

Bydd yn ochelgar nos a dydd,
Ti ddylit beunydd wyllo
Rhag myned i gyfeillach wael,
Ac felly gael dy hudo
I adael tŷ a gwaith dy Dduw
A'i gyfraith wiw yn ango'.

Boed iti'n fynych dan y sêr
 Gu addas arfer gweddi,
 A disgwyl wrth dy Dduw'n ddiball,
 Fel morwyn gall heb golli ;
 O hyn y daw i ti bob awr
 Yn ddinam fawr ddaioni.

Ffarwel fy anwyl Lora fwyn
 Diweniaith forwyn dyner,
 Bendithion fyrdd ar dir a môr
 A gaffych o'r uchelder,
 A phan orphenych daith y llawr
 Cael coron fawr cyfiawnder.

ENGLYNION

O ddiolchgarwch i MISS ANNE JONES, Penycaerau, ger
 Aberdaron, am ei ffyddlondeb yn casglu enwau
 tanysgrifwyr at "Ddiliau Meirion."

Cyrhaedd i Bencaerau—yn wiwlwys
 A wnelo'm llinellau,
 I dŷ Ann sy'n llawn doniau,
 Yn Lley'n bell—y llawen bau.

Rhwydd-wych i Ann y rhoddaf—ddiolwch,
 Mawr ddyled sydd arnaf ;
 Digellwair hyd y gallaf,
 Coffau ei rhinweddu wnafl.

Ni fu fenyw yn Eifionydd—na Lley'n,
 Mewn un lle ei helfydd ;

Pa Ann, na pha Susan sydd
Mor enwog yn Meirionydd ?

Meddylodd Ann Jones am "Ddiliau—Meirion,"
A mawr ymdrechadau
Y mêl glân a gluda'n glau
I'w chegin, lon'd ei chawgiau.

Da iawn Ann, gwnest wasanaeth—i filoedd,
Cei felus ganmoliaeth ;
Dilys caiff pawb drwy'r dalaeth
Foliau llawn o fêl a llaeth.

Golud, a llwyddiant gwiwlôn—a gaffych
Gu, hoffus, fun dirion,
A byw'n dêr ddi-brudd-der bron,
Deiroes uwch Aberdaron.

ANERCHIAD

I Mr. DAVID MORRIS DAVIES, nai o fab chwaer
i'r awdwr.

Difeth it' fy nai Dafydd,—ddi-anglod
Gwnaf ddau englyn newydd ;
Nodaf a d'wedaf y dydd
Dy anwyd, mewn dywenydd.

Mis Ebrill chweg, y degfed—oedd y dydd,
(Hawdd yw dweyd) y'th ganed,
Yn faban gwiw-lan, bu'n ged
Wiwlôn, i'th fam dy weled.

Ymwriaist yn llanc mirain—dan y ser
 Hyd yn saith ar hugain ;
 Bydd fyw eto'r Cymro cain,
 Drwy degwch—dair a deugain.

HIR A THODDAID

I MR. DAVID JONES, (*Dewi Rhagfyr.*)

Cyfaill dihafal, dyfal, a difyr,
 Da, a rhywiogfwyn yw “Dewi Rhagfyr;”
 A gwir hyfrydwch e gâr ei frodyr,
 Fe rydd enaint, a nard i farddonwyr,
 Mab astud yw'n mhob ystyr—synwyrol,
 Moesgar ei reol yn mysg goreuwyr.

DAU ENGLYN

I MR. HUMPHREY JONES, Caerlleon.

Rho'i parch i Humphrey ap Io'n—a ddylai
 Gwyddelod, a Saeson ;
 Rhodded y Cymry 'n rhwyddion
 Iddo hyd arch, barch o'r bon.

Mynwesol gymwynasydd—da, ydyw
 A didwyll or'chwylydd ;
 Hwyrach mai fe yn hoyw-rydd
 Etto ar GAER yn Faer a fydd.

ETTO, I FERCH FECHAN MR. JONES.

Dor'thy Jane, wiwlan ni welwyd—gwynach
Geneth pan y'th ganwyd ;
Gwridog a hawddgar ydwyd,
Eulun ail i " Elen " wyd.

Dy glod ar hyd y gwledydd—a daena
Pob dawnus ymwelydd ;
Glendid Mon, a Meirionydd
Ynod, heb ddim sorod sydd,

O mòr deg y'moreu d'oes—yw'th aelïau
A'th olwg diwýrgroes
Pwy fedd serchlon, fwynlon foes
Na'th gar, enethig eirïoes.

DAU ENGLYN

I enhuddo digofaint Meistri R. JONES, (Robin Awst,)
a GRUFFYDD SIENCYN AP IEUAN, Fferyllwyr,
Towyn, Meirionydd.

Hoff, wir, ollawl Fferyllydd—yw Rhobert
Wr hybarch di-eilydd,
Cyflawn iachâd, rad, a rydd
I afiach ddioddefydd.

Ffraw wella'n swydd fferyllydd,—mae Ifans
A myn'd mwy-fwy clodrydd,
Coel-fawr brif Ddoctor celfydd,
Ar y fainc cyn hir a fydd.

ATTEBIAD.

Diolwch gwir a dalwn—i Feurig
A'i fawredd fynegwn ;
Ei glod ar led a gludwn,
Modd hawdd yw " madda " i hwn.

A N E R C H I A D

I deulu y DOLAU GWYN, Meirion.

I deulu gwâr Dolaugwyn—pur odiaeth
Y prydaf dri englyn ;
A chwedi cyhoeddi hyn,
Ar fyr, gwnaf un i'r forwyn.

Marg'ret Lewis sy'n ddewisol—wraig hardd,
Rywiog, hoff brydweddol ;
Nid cecrus, ffuantus ffol
Anhynaws wraig hunanol.

Ac Evan, eirian arab—ga air da
Fel gwr doeth llawn cudab ;
Gwir hefyd mai goreufab,
Gwel myrdd, yw Gwilym eu mab.

A morwyn bur dda 'i chymeriad—yw Sian,
Addas iawn ei rhodiad ;
Benyw liwgar foddgar fad,
Ddistaw, garuaidd wastad.

PLAS UCHAF, DOLGELLAU, A'I FFUMERAU.

P'le sy iachach na'r "Plas ucha"—hyffordd
A hoffus breswylfa ;
Ei neuadd hardd ddi-gardd dda
Goethwyd yn fflurawg eitha.

Y cyntedd sy'n lle prydweddaw, —berth-waith
Ei borth Gorllewinawl

O'r ochr yma, gweithia gwawl
Drwy'r anedd, a'r Dwyreiniawl.

Cu harddwyh gurn cywir-dda—goreurawg,
Geir ar y Plas ucha';
Curn cnapiog, diwyrog da,—curn perffaith,
Cywrain o emwaith yw y curn yma.

Curn cedyrn—fe'u ceir hwy'n cydio,—a'r mur
Er maint fydd y taro ;
Ni syflant, glynant dân glo,
Er i gorwynt hir guro.

Curn difreg a theg o waith Iago,—seirian,
Y pen saer di-guro ;
Pa le 'n mysg mil er chwilio,
'N faith iawn, ceir un o'i fath o.

Addurnwaith a roddodd arnynt,—pybyr
Medd pawb a'u canfyddynt ;
Nodedig hynod ydynt,
Saith gwell na'r rhai sytha' gynt.

Dyfal y gwelwyd Ifan—y sywdeg
Brif asiedydd seirian ;
Gweithio'n lew i'w goethi'n lân
Ei cafwyd uwch y cyfan.

Y SHOP NEWYDD, DOLGELLAU.

Gwelwch fasnachdy gwiwlan,—hoff hynod,
A dwy ffenestr lydan ;
Mac'r gywdr llathraidd, glwysaidd glân,
Cu-ferth, yn urddo'r cyfan.

Dyma waith pur di-guro—a bery
 Heb arwydd llychwino ;
 Yn "Shop newydd" bydd tra bo
 Gwawr araul, i'w goreuro.

Gwaith cnapiog, caerog cywrain—na luniwyd
 Ei lanach yn Mrydain ;
 Rhyfedd os gwnaed yn Rhufain
 Na Ffraine chwaith, gerf-waith môr gain.

Ceir edrych drwy'r cywir wydrau—gwympawg
 Ar wir gampus nwyfau,
 Yna gwelir yn y golau
 Ar ddisgleirwch, glir-wych gloerau,
 Syw a dinam, heirdd sidanau,
 Bur waith union, a brethynau,
 Bliant meinion, loywon liwiau,
 Ceinion, mwythion, o bob mathau,
 Mawr ethawl amrywiaethau—rhai gwladaidd
 A rhai euraidd o'r rhyw oreu.

CYFARCHIAD I

R. N. HARTLEY, Ysw., o'r Llwyn, Llywydd y Gym-
 deithas Feiblaidd, &c., yn Nolgellau.

Rhodewn glod oddiar wybodaeth—deilwng
 I'n di-halog benaeth ;
 Y blaenor, heb elyniaeth,
 Yn llaw Duw, i'n llywio daeth.

Lywyddu mewn lle addas—yr ydych
 Wir odiaeth gymdeithas ;

Harddwych, a mawr ei hurddas,
Dir yw, a'i tharddiad o ras.

Cymdeithas y cymdeithasau—doethaf
Yw'r gymdeithas feiblau;
Ei gwawl rhwydd sy'n eglurhau
Seirian ddwyfol drysorau.

Pob calon fo 'n ymloni—a grasol
Gariad gwresog atti;
Ie blwydd ei Jubili—i bob gwlad
Gofio 'i dylanwad, gafwyd eleni.

Prif wron, rhadlon a rhydd—ddawn helaeth
Yw'n hylaw gadeirydd,
A'i galon mór serchlon sydd
Yn chwenych gwel'd ei chynydd.

Chwi ydych am ei chodi—i'r entrych
• Ar wynt eich haelioni;
O'ch gwirfodd yn ymroddi
Gyda sel i'w harddel hi.

Mewn modd prydf berth ymnerthwch—yn gadarn
A gwiwdeg hyfrydwch,
O'i phlaid yn eon, a fflwch,
Heb wyraw o bybyrwch.

Mor wych yw'ch bri, mawrhewch eich braint,—llwydd-
wch
Nes eich lluddio gan henaint;
A'ch rheol fal eich rhiaint
Fu'n enwog swyddog i'r saint.

LLINELLAU

A gyfansoddwyd newydd glywed am farwolaeth y
Parch. WALTER DAVIES, (Gwallter Mechain) A.C.,
Periglor, Llanrhaiadr yn Mochnant.

Trwm ochi am Gwallter Mechain—wir awdr,
Yr ydys yn Mrydain ;
Galar sydd, fe glywir sain
Trist lefau, trwst wylofain.

Tŵr di-fwlch oedd Walter Davis,—cadarn
Borth cedawl uchel-bris ;
Gwych ŵr oedd, ac uwch ei ris
Ceir adrodd na'r "Cawr Idris."

Bardd o urdd uwch beirdd ei oes,—a beirniad
Heb wyrni, na drygfoes ;
Bwrdd aur, a phen bardd eirioes,
Da iawn fu a dien foes.

Hwn ydoedd wir hynodol—iawn odiaeth
Henadur barddonol ;
Pa wr iawn—pwy ar ei ol
A leinw ei le 'n ddilynol ?

Cannoedd yn fawr eu cwynion—a welir
Yn wyllo deigr heilltion,
O waith rho'i llad athraw llon
Mawr-werth, yn mhlith y meirwon !

Er rho'i ei gorff i orffwys—am enyd
Yn mynwent yr Eglwys,
Coeliwn i'w enaid culwys—yn ddifreg,
Lonbur ehedeg i'r lân baradwys.

Lle rhydd a'i 'wenydd wiwnod—yn fedrus
 I'r anfeidrol Drindod
 Dragwyddawl, ryglyddawl glod
 Seirian, yn bur ddi-sorod.

Môr llon! yn mhau'r llawenydd—efo'r saint
 Rif y ser ysplenydd,
 Yw enaid y duwinydd
 Uwch yr haul, yn iach a rhydd!

MEURIG FEBRILL

Dân ergydion gwefr-beiriant Mr. J. REES, Oriorydd,
 Machynlleth, y 13eg o Awst, 1853.

Doeth ddyfais hyd eithafion—gwir ddi-dwyll
 Gyraeddiadau dynion
 A gafwyd, bydd hir gofion,
 Ar sedd, am gawri 'r oes hon.

Dynion a gyrch wefrdanau—i'w lloches
 A'u llachar beirianau;
 Uthr wreichion, gwyrddion, yn gwau
 Ganfyddir, drwy gain foddau.

Fflamawg, a berwawg beirian—Sion ap Rhys
 Sy'n parhau'n wefrdan;
 Melltenawg, a deifiawg dân,
 Deryllaidd, dery allan.

- Tywynboeth beiriant enbyd,—eresawl
 A roes imi aml ergyd,
 Minau a aeth mewn muniyd
 Dyn a'i gŵyr, yn dân i gyd!

A N E R C H I A D

I Fab a thair Merch, Mr. a Mrs. EDWARDS,
Penygeulan, Llanuwchllyn.

Gwelais yn "Mhen y Geulan"—dawelaidd
Barchus deulu mwynlan ;
Siriol rieni seirian,
A phlant, serchog, gleiniog glân.

Owen Edwards a nodaf,—y cynfab
Cu iawn-ferth yn flaenaf ;
A mydru cân os medraf
O glod i'r genethod, gwnaf.

Mair weddaidd dymer wiwdda—a'i chroenwen
Chwaer anwyl Eliza,
A Marg'ed dduwiolgred dda,
Gwylaidd dair seren Gwalia.

Brawd tirion, rhadlawn a rhydd,—doeth arawd,
A thair o chwiorydd,
Rhai trefnus, destlus bob dydd,
I'w gweled efo 'u gilydd.

Hoff wir ddidwyll hyfforddiadau—addas
Ro'ir iddynt yn forau
Gan eu Mam, yn ddiamau,
A'u Tad hawddgar, clodgar, clau.

Boed heddwch a byd diddan,—dialaeth
I'w dilyn yn mhobman ;
Ac hefyd uwchlaw 'r cyfan
Y nef, aur haddef i'w rhan.

ENGLYNION BEDDARGREIFF.

I Mr. LEWIS EDWARDS, (Eos Twrog.)

Yma gorwedd myg wron—cywirddoeth,
Pen cerddor gwlad Meirion ;
“Eos Twrog,” was tirion,—oedd flaenor
Yn maes egwyddor y miwsig-yddion.

Arall, ar fedd Tad a'i Ferch.

Gwel ein bedd, dyfnfedd ni'n dau,—gwna gofrestr,
Gan gyfrif dy oriau ;
Daw dwthwn y d'oi dithau,
Yn fud i'r un bydrud bau.

Er ymdaith rhan faith o'r hen fyd,—a gweled
Ei gilwg a'i hawddfyd ;
O'i dwrf a'i gynhwrf i gyd
Gorwedd rwy'n awr mewn gweryd.

Fe orwedd fy rhan farwol—yn y llwch
Mewn lle rhagderfynol ;
Hyd amser daw'm Ner i'm nol
Ar g'oedd i'r farn dragwyddol.

Ystyriwch, gwelwch i gyd,—myfyriwch
Môr fyr yw eich bywyd,
A choeliwch—rhaid dychwelyd
Oll i'r bedd er allo'r byd.

Buan gwna dyddiau bywyd—fyn'd heibio,
 Tebyg ynt i freuddwyd ;
 Dysgwn, nac oedwn, i gyd
 Eu rhifo 'n gywir hefyd.

Pwy a gred fyred fu oriau—f'ainioes,
 Terfynawl funydiau,
 Megis cam yn ddiamau
 Yw bywyd dyn, briddyn brau.

Cell fadryd, bydryd y bedd—pryfedawg
 Prif adail y llygredd,
 Yw 'r gwely oer a gwaeledd
 Wyf ynddo'n huno, mewn hedd.

Er i Risiart hir oesi—yn esgud
 Ddyn ysgafn a heini ;
 Yn y llwch dân y llechi
 E'i guddio wnaed o'n gŵydd ni.

Borau'r farn gadarn ei gwedd—gadawant
 Ogo' dywell llygredd,
 Duw Ior ei hun awdwr hedd
 A'u cyfyd fry o'u ceufedd.

Yn forau i bau y bedd—disgynais,
 Dysg genyf wers ryfedd ;
 Daw'r rhai cryfa, gwycha'u gwedd
 Yn weiniaid i'r un annedd.

Gorweddaf, hunaf enyd—yn y bedd
 Heb un boen na thristyd,

Hyd forau caf f'adferyd,
Mewn bythol, anfarwol fyd.

Fy annedd yw'r bedd gwybyddwch—chwithau
Y'ch weithian mewn harddwch,
Bob graddau, diau deuwch
Yn bydriaid i'r llaid a'r llwch.

Dyma fedd llariedd ŵr llon—hynawsaidd
Fu'n oesi'n heddychlun;
A'i geinwych wraig deg union—sy'n gorwedd
Yma mòr waelwedd yn mhau y marwolion.

Edrychwch, gwelwch yn y drych golau,
Rho'f i chwi arwydd er rhifo'ch oriau;
Yn feirwon byddwch fory'n y beddau
Yn llawr y fynwent y lle'r wyf finau,
Daw engyrth ddyrnod angau—i'ch gorfod,
A'ch dwyn yn llychod, gewch dan y llechau!

Yma gorwedd myg eirioes—wych hylwydd
Uchelwr di-ddrygfoes;
Un llongar fu'n llawn gwirfoes
Tra enwawg trwy ei einioes.

Dyma fedd gwr rhinweddawl—hynawsaidd,
Fu'n oesi'n grefyddawl;
Duw Ior o'r llwch daearawl
A'i cyfyd i fyd o fawl.

Ow! Ann bach! ai yn y bedd,—oer haddef
Y rhoddwyd di i orwedd?

Lle hagrir yn mhau llygredd,
Dy eirian wych dirion wedd.

Gwel oer fedd gwiw hael wr fu—yn noddod
I'w rinweddawl deulu ;
Clwy' iddynt oedd gwel'd claddu
Priod, a thad, ceinfad cu.

A N E R C H I A D

I'r Parch. R. D. THOMAS, am ei ymdrechïadau clodwiw
yn casglu arian yn yr America, i dalu dyled
addoldai Penarth, a Jerusalem yn
Swydd Drefaldwyn.

Ein dewrwyth Iorthryn dirion—addurnwyd
Yn ddiornaidd grïstion,
O ddonïawl nodwedd union
Da was yn ngwinllan Duw Ion.

Gwaner yw Iorthryn Gwynedd—haeddianol
O ddinam anrhydedd ;
Gwr enwog mewn gwirionedd,
Safed, na syfled o'i sedd.

Gwneist waith da, profa pob rhai,—iawn athraw
Yn ethryb d' addoldai ;
Ymariaist, blaenaist heb lai
O'th wirfodd at waith erfai.

Morio i dir Amerig—a wnaethost
Yn eithaf caredig,

I gasglu, heb dyrfu dig
Na dadwrdd,—aur nodedig.

Perffaith restr o'th onestrwydd—dderbyniwyd,
Rodd arbenig sicrwydd
It' weithio'n iawn, mewn llawn llwydd
A dewr ymgais di-dramgwydd.

Daethost yn ôl o'th deithiau—yn gawraidd
Hyd y geirwon dônau,
I Faldwyn dy glirwyn glau
Hoff, anwyl—hen gyffiniau.

Drwy wych odiaeth ymdrechiadau—hwyliast
Dy helaeth gasgliadau,
Yn lle rh'oi gwarth i Benarth bau,
Diwallaist dy ddiadellau.

Diarchar fu dy orchwyl,—ie gwell
Nag a allid ddisgwyl ;
Ti gai bellach, hawddach hwyl,
Fy llonwych gyfaill anwyl.

Llawn achos llawenychu—a gafwyd,
A gwiwfwyn ddyrchafu
Mawl coedd, fod y temlau cu
A'u dyled wedi dalu !

Sarah gain, un o ser Gwynedd—gu-ferch,
A gefaist yn gydwedd ;
Myg alaf ac ymgeledd
Iti boed hyd at y bedd.

Y WENYNEN.

Y gain enwog Wenynen—a'i dawn fawr
Hi dŷn fêl o'r domen ;
Di-lwrf gasgl o bob deilen
Lysieuawg, a brigawg bren.

Gwenynen â'i gwin enau—pur, seirian
O'r persawrus lysiau
I'w chell gron dan gludo'n glau—
Mêl fŷn mewn mil o fanau.

Moddus wenynen meddaf—gu frysia'n
Gyfrwys-wych i'r eithaf ;
I'w thy rhwym gan weithio'r haf
Cain gywain fêl cyn gauaf.

Y Gwenyn yn ugeiniau—a chanoedd
Gylchynant bob parthau,
Mêl glân a gludan' yn glau
I'r difefl fodrydafau.

Dewrwyh Wenynen dirion—ofalus
A gasgl fêl yn brydlon ;
Ysbail dda o helfa hon
Gêd anwyl a ga dynion.

Gwenynen goethwen heb gel—a ymgais
O amgylch pob cornel ;
Diwyd gynyrcha'n dawel,
O fanau fyrdd hi fŷn fêl.

Addien Wenynen anwyl—gu-iawn fodd
 Gywain fêl i'w phreswyl ;
 Gŵyr yr adeg—hardd-deg hwyl
 I'w gyrchu, a gwna'i gorchwyl.

Casglu mêl fydd prif elfen—y wisgi
 Wiw esgud Wenynen ;
 Arddelwa bob îr ddeilen
 Dros y byd heb drais o'i ben.

BEDDARGRAFF CARNHUANAWC.

Daerwyd llyw awdurol—cry'n heniaith
 Carnhuanawe ddoniol,
 Eithr ei waith—athraw ethol
 Oesau fyrdd a saif o'i ol.

Carnhuanawe ! gwron hynod,—gwelwch
 Gof-golofn ei feddrod—
 Athraw glan—ga'i uthr wiw glod,
 Urddasol, orwedd isod.

Ow ! llawr gweryd yw lle'r gwron,—hynod
 Carnhuanawe dirion ;
 Profwyd mai ef oedd prifon—perffeithiaf
 A'r hynawseiddiaf o'r Hanesyddion.

Doeth ofydd hyd eithafion—gwiredau
 Y gwreiddiol hanesion ;
 Llyw, a noddwr llenyddion
 Ydoedd ef—Cenadydd Iôn.

AR BRIODAS

MR. JOHN REES, a MISS GWEN JONES, Dolgellau.

Gwen, a John, dirion fo'n dda—ymlybro
Mal Abram a Sara,
Heb un artaith, blinfaith bla
I'w gorfod hyd eu gyrfa.

I TALHAIARN.

Talhaiarn Cadarn fardd eu,—yn Llundain
Sy'n llondeg gartrefu ;
Ni wthiwyd yno i nythu
Gwr 'r un ddawn er G'ronwy Ddu.

Mae'n llyfndeg, ddwysdeg bryddestydd—doniol,
A dianaf awdlydd,
Ac hyawdl eiliwr Cywydd,
O iawn ryw, a'i awen rydd.

Dyn i bawb a dawn bybyr—ydyw Tal,
O waed teilwng awdwyr ;
Mab astud yn mhob ystyr
Wrth sodlau'r gorau o'r gwyr.

I BLAS DOLGYN,

Pan aeth ar Dàn yn 1845.

Och ! drymed, gweled Dolgyn !—ddoe ydoedd
Dda adail gyferbyn ;

Heddyw i lygaid tanbaid dyn
Mae 'i harddwch megys murddyn !

Y bore'r oedd heb arwyddion—alaeth
I'w weled gan ddyinion ;
O grochwylt dân a gwreichion,
Tu fewn y lle, gwnaent fyw'n llon.

Am ddeuddeg bu ymddiddan—fod arwydd
O doriad fflam allan ;
Gwelwyd y plasdŷ gwiwlan
Cyn wyth yn danllwyth o dân !!

ENWAU DYNION.

Rhys, Rhisiart, Siarls, a Rysel,—Sion, Morris,
Owen, Meurig, Daniel,
Huw, Emwnt, Simwnt, Samwel,
Sem, Cam, Enos, Bos, a Bel.

Dan, Lewis, Ellis, a William,—Meseg,
No', Moses, ac Abram ;
Lot, Levi, Harri, Hiram,
Mark, Luc, Io'n, Himon, a Ham.

Grace, Marged, Sioned, a Sian,—a Gainor,
Mair, Ruth, Gwen a Susan ;
Ails, Martha, Sara, Seirian,
Mallt, Sibil, Gwerfil, ac Ann.

CALEDI'R AMSERAU,

Yn 1847.

Gwasgedig derfysgiadau—hyll, anwar
Sy'n llenwi 'n gororau ;
Blaendoriad o'r blinderau
Dan ser sydd gwedi nesau.

Blwyddyn od, hynod yw hon—yn Mrydain,
Mawr ydyw'r trallodion ;
O! mòr orddwys mae'r 'Werddon.
Dan aml erchyll, dywyll dòn.

Angau gawr sy'n mawr ymwrio—'n llewaidd,
A llawer yn syrthio
Drwy ing i gleidir ango'
Ar frys, yn mhob cwr o'r fro.

Diau fod ein pechodau—dig'wilydd
Yn galw am flinderau ;
Drylliedig gan drallodau—yw canoedd ;
Gwasgu miloedd mae gwgus gymylau.

Yn awr yw'r amser i ni—gâd ddiffrwyth
Gyd-ddeffro heb oedi,
Ac addas arfer gweddi
Ger bron Duw Ion raslon Ri.

Diwygiad drwy'r wlad a ledò,—'n bybyr
Boed i pawb weddio ;
Duw Ior nid yw am daro—'r trueiniaid
O gywir enaid wrth ei air a gryno,

CWRW Y BALA. 1803.

Boliad o gwrw y Bala—mae'n burion
Mewn barug ac eira ;
Ond gwell yn siwr yw'r dwr da—
Rhad, iachus sy'n Rhyducha'.

I'R EIRA.

Ar yr Aran sai'r eira—fe wyddir
Nes darfyddo'r gauaf ;
Os y gwanwyn ddisgyna
Fe saif bron hyd hinon haf.

ENGLYNION

I ofyn Cwmpas i HUMPHREY ELLIS, Gôf,
Gellilydan, ger Maentwrog.

I Hwmpfrau, gorau gwron,—drwy gariad
'Rwy'n gyru'n heddychlon
Gân o glod—hynod yw hon
I'th anerch mewn iaith union.

Gôf ydwyt uwchlaw'th gyfoedion—ethol
Am wneuthur eirf llyfnion,
Gwisgi a lluni hwy'n llon
Wr enwog, ar yr einion.

Gwnei nerthol drosol—gwnei dresi—eurfyg,
 Gwnei arfau i'r seiri ;
 Yn mysg cant, meddant i mi,
 Ni bu d'ail am bedoli.

Fy nyben dan fwyn obaith—yn d'anerch
 A doniau amherffaith,
 Mòr hyf, yw deisyf ar daith
 Rhodd genyt o'th rwydd geinwaith.

Y rhodd wy'n geisio ar hynt—o 'wyllys
 I wella fy helynt,
 Yw "cwmpas" dan werth can'pant,
 Gwerth dau o'r rhai gorau gynt.

Ei gymal fo'n dal yn dŷn—heb wegian,
 A'i bigau'n ddur dilyn ;
 Càn newydd gelfydd, ôf gwyn,
 Gwiw odiaeth, a gei wedyn.

PSALM CXLVIII,

Wedi ei throi ar fesur arall gan y diweddar
 Barchedig ELLIS WYNNE, o'r Lâs Ynys.

O molwch yr Arglwydd, o'r nef wên lawen lu,
 Clodforwch E'n unswydd, holl fro'r uchelder fry ;
 Angylion glan
 Molienwch Ef
 Holl luoedd Nef
 O fawr i fân.

Chwi haul a lloer er lles, y ser a'r goleu i gyd,
 Chwi nef y nefoedd nes, rhowch oll i Dduw'n unfryd
 Dda fawl ddifeth;
 Ffurfafen draw,
 Cymylau'r glaw,
 Gwnewch chwi'r un peth.

Rhoent oll i'r Arglwydd nef, i'w glân greawdydd glod;
 Trwy ei orchymyn Ef, maent bawb fel hyn yn bod
 Trwy ddeddf ddidon,
 O hir na byr
 Yr un ni thyr
 Mo'r gyfraith hon.

Holl bethau'r ddaear ddwys, clodforwch Dduw'n ben
 gwaith,
 Chwi ddreigiau garwle gwys, a'r holl ddyfnderau
 maith
 A'u rhoes mawrhant,
 Tân, cenllysg, ôd,
 Tarth, gwynt, bob nôd
 Ei air a wnant.

Mynyddoedd, bryniau oll, coed-ffrwyth a'r cedrwydd
 cŷd,
 Bwystfilod yn ddigoll, a holl 'nifeiliaid byd;
 D'owch at fawl Duw
 Pob amryw bry',
 Holl adar fry,
 Hyfrydaf ryw.

Brenhinoedd daear gron, a'r bobloedd oll yn nghyd,
 Pob t'wysog sy ar hon, holl swyddwyr, barnwyr byd ;
 Pob llange call yw,
 Pob morwyn glau,
 Pob hen, pob Iau
 Addolwch Dduw.

Can's tra rhagorol yw, ei enw unig Ef,
 Ei ardderchawgrwydd gwiw, sy ymhell uwch dae'r a
 nef ;
 Can's codi y bydd
 Corn, nerth a pharch
 I'w bobl, a'u harch
 A glyw bob dydd.

Dadseinia ei holl saint ar led ei lawnglod lân,
 Dadganant ei fawr fraint, blant Israel fawr a mân ;
 A phawb â'n nês
 I wneud a bair
 Ef yn ei air
 I'w lwyddfawr lês.

GLORIA PATRI.

Rhown oll i'r Tri yn Un, sy'n tystiolaethu fry,
 Y Tad a'r Mab cyttun, a'r Yspryd cariad cry',
 Fel y bu erioed
 Mae'n awr 'r un wedd
 Bydd fyth drwy hedd,
 Dra haeddawl glod—Amen.

ENGLYNION

I Goffa am y diweddar Barchedig JOHN JONES, M.A.,
Borthwnog, ger Dolgellau.

Trymion drallodion lliidiog—a welir
Yn nheulu'r Borthwnog,
Màn gynt y clywid mwyn gôg
Yn eilio, sy'n lle niwliog.

Angau a'i saethau sythion—anelodd
Ein hanwylaf wron,
Llwyr wanwyd a brathwyd bron
Llyw naw-radd y llenorion.

Porth llon i feirddion a fu—a'u tarian
I'w teraidd gyfnerthu,
Pob gradd ar ol ei gladdu,
O'u gwirfodd amdôdd mewn du.

Colled oedd fyned i'w fedd—yr ynad
Tirionaf yn Ngwynedd;
Carai wel'd mewn cywir wedd,
Gwawr hynaws teg wirionedd.

Mae'r gweiniaid yn mawr gwyno,—ni allant
Ei ollwng yn angho';
Gwae iddynt fu ei guddio,
Yn min yr allt, mewn mân rô.

Braw i'w dyner briod anwyl—wiw-lwys
Oedd weled ei arwyl;
Ciliodd ei gwar gydmar gŵyl,—
Nawsaidd, i gadw noswyl.

Gorwedd wna'i gorph mewn gweryd—am enyd,
 Yn mynwent Llanelltyd,
 Hyd foreu ca'i adferyd
 Yn ol i fyw mewn ail fyd.

ENGLYNION

I gymdeithas lenyddol Machynlleth, Rhag. 16, 1853.

Hawdd amawr hwb fawr heb feth—lon araul
 Lenorion di-achreth,
 Brodorion cryfion eu creth,
 Iach unllais sy'n Machynlleth.

Ffraethlon lenyddion addas—iawn unodd
 Yn anwyl gymdeithas,
 Nid rhyw ynyd goeglyd gas
 Daeraidd derfysgwyr diras.

Cyfeillion dewrion diwyro—ydych
 Sydd wedi gwir ddeffro,
 Heb lediaith i gydbleidio
 'N eitha'ch bryd hen iaith eich bro.

Pybyr areithwyr ethol—rheiddiawg
 Dar haeddweh eich canmol.
 Ewch heb froch rhagoch mewn rhol
 Drwy gariad yn dra gwrol.

Dadlwch, iawn bynciweh yn ber—a chofiwch
 Ddyrchafu iaith Gomer;
 Iaith orau dan seiliau'r sêr,
 Iaith ddiysbydd, iaith ddwysber.

Llwyddiant fo i'r llywyddion—tra siriol,
 A'r trysorydd ffyddlon,
 A'r llâd gofnodydd dewr llon
 Di gynwrf da ac union.

CYWYDD

I goffa Mr. HUGH PUGH, Cefn y maes, Brithdir, tad
 LEWIS PUGH, Ysw., Penbryn, Dolgelley, Bu farw
 Rhagfyr 19, 1853, yn 90 mlwydd oed.

Eang gylch rhwyg angau gawr
 A gyrhaedd i bob gorawr,
 Ei gaeth lywodraeth lawdrôm
 Sydd dra erchyll ffrewyll ffrom :
 Deddodd drwy bechod Adda
 Arteith-fawr a blyngfawr bla ;
 Ei hil syw'n wael osywaeth
 Dan ddybryd ddedryd a ddaeth.
 Dianc o grafange ryfedd
 Angau glas ac ing ei gledd,
 Sy'n orchwyl dison archeb
 Na wnaed ac ni wneir gan neb ;
 Am hyn ni cheir bryn na bro
 Na welir rhyw rai'n wylo ;
 Pawb, pawb o ddeiliaid pob pau,
 Lethir gan farwolaethau ;
 Pob mab a merch, pawb ymhob man
 Angau a'u deil yn ddiyngan ;
 O'r baban gwan di gynwr,
 A'i deg wedd, hyd oediog wr.
 Diweddar yn llawn dyddiau

Mewn oed teg purdeg o'n pau,
 Collwyd pendefig callwych,
 Cymydog enwog a gwych,
 Hyw ap Hyw diledryw lon,
 Ragorol rywiog wron ;
 Hen wladwr anwyl ydoedd,
 A châl wr diddichell oedd ;
 Chwer'der a mawr brudd-der bron
 I'w eirioes fab, a'i wŷrion,
 Oedd symud yn fud i'w fedd
 Yr hybarch dad arabedd.
 Mawr drallod a syndod sydd
 I'w gu rinawl garenydd,
 Gwelwi maent dan eu galar
 Ar ol eu rhagorol gâr.
 Eilwaith ni chant ei weled,
 Nac o'i law hael gaffael un gêd ;
 Ei yrfa fu'n o hirfaith,
 Dreiliodd diweddodd ei daith.
 Ffarwel hen batriarch mawrbarch mād,
 Hyd forau dydd yr adferiad.

ENGLYNION

I Mr. WILLIAM HUMPHREYS, Llynlleifiad.

Ffyliaid gan faint eu ffoledd—a'u gwallau
 Gollant bob anrhydedd ;
 Pan daw'r doethion union wedd
 (Llafurus) oll i fawredd.

Dygodd flwfrdra a diogi—ganoedd
 I geunant tylodi ;

Ond cedyrn mae Duw'n codi,
Rhai gweithgar i freingar fri.

William sy'n fawr ei alwad—gan wiwgu
Enwogion Llynlleifiad ;
Fe'i gwnant cyn hir bernir heb wad
Yno'n faer uniawn fwriad.

Ei weithwyr sy'n rhif wyth-ddeg—o gawri
Rhagorol a glan-deg ;
Curant nes rhoi pob careg,
A llun da yn ei lle'n deg.

Chwimwth ar ei orchymyn—y gweithiant
Yn goethaidd a dichlyn ;
Diorfod hyd ei derfyn,
Wrth ei fodd, hardd waith a fŷn.

Torant ddyfnion gwterydd—ugeiniau,
Trwy ganol heolydd ;
Trosolio tra dalio'r dydd
Eu gwelir gyda'u gilydd.

Ei lais, a chodiad ei law—bair iddynt
Ebrwyddawl gydweithiaw ;
Cedyrn eu ceir yn cydiaw
'N bur rhwydd ymhob caib a rhaw.

Bydded rhwydd, wiw-lwydd i William—gyrhaedd
Hawddgarwch fel Abram ;
Dawnus foneddwr dinam
Fyddo lle cerddo bob cam.

ENGLYNION

Ar briodas y Parch. E. GRIFFITHS, Llanegryn, Rhag.
27ain, 1837. (Y briodas gyntaf a weinyddwyd yu
nghapel yr Annibynwyr yn Nolgellau).

Priodwyd, unwyd heb anair—deuddyn
Yn eu dyddiau diwair;
Gweipidog enwog y gair,
A morwyn yn cael mawrair.

Gweinyddiad gogoneddol—a gawsant
Yn gyson â rheol,
Heb addurn trefn Babyddol,
Na dim o'i gau ffurfiau ffol.

ET O

Ar briodas Mr. EVAN JONES, (*Ieuan Ionawr.*)

Iawn unwyd Ieuan Ionawr—ŵr hyawdl
A rhian bur glodfawr;
Dau oeddynt ddoe a diddawr
Dan y nef, ond un yn awr.

Rhwydd hynt fo iddynt hyd fedd—i droedio
Dirwydawg ffyrdd rhinwedd;
Pelydr clau, rhadau Iôr hedd
Tywyned i'w ty annedd.

Cyd-dynu o reddf tan yr iau—wnelont
Yn ol eu hamodau;
Pur o hyd b'ont yn parhau
I wneud eu haddunedau.

AMRYW O EMYNAU AR WAHANOL
DESTYNAU.

Edrych ar Grist yw dyled dyn,
A'i gyflawn ddilyn hefyd ;
Caiff pawb a ganlyn ar ei ol
Feddianu bythol wynfyd.

SALM XXVII. 4.

Un peth a ddeisyfais gan Dduw yn llawn sêl,
A hyny yn benaf a geisiaf heb gêl ;
Cael trigo yn Salem tra byddwyf fi byw
I edrych ar hawddgar brydferthwch fy Nuw.

DIARHEBION III. 29, &c.

Na feddwl ddrwg mewn lliidiog wyn,
Yn erbyn dy gymydog,
Ag yntau'n trigo ger dy fron
Yn dirion a diwyrog.

I ymryson byth a neb na ddos
Heb achos fel gwallgofddyn,
Os na wnaeth yntau ddrwg unwedd,
Neu gamwedd yn dy erbyn.

Na chenfigena wrth wr traws,
Bydd fwyn a hynaws hefyd ;
Ond na choledda un o'i gerth
Weithredoedd anferth ynfyd.

Fe gyfrif Duw yn ffaidd iawn
Y rhai sy'n llawn o drawsder ;

Ond ei gyfrinach rydd heb gêl
I bawb a wnel gyfiawnder.

Melldith yr Arglwydd oddi fry
A drig yn nhŷ'r annuwiol ;
Ond ei fendithion sydd yn llawn
Yn nhrigfa'r cyfiawn grasol.

Diau fe watwar Duw'n ddirus
Bob dyn gwatwarus ynfyd,
A'i ras i'r gostyngedig rydd,
A mawr a fydd ei wynfyd.

Y doethion oll a gânt yn ddir
Feddianu gwir anrhydedd ;
Ond i'r ynfydion erchyll fraw,
A gwarth a ddaw'n ddiiddiwedd.

ESAU LII. 13.

Fy ngwas a lwydda medd Duw Ior,
Teyrnasu a wna o for i for,
Fe godir i ogoniant llawn,
A bydd yn ddyrchafedig iawn.

Er mor ddirmygus oedd ei wedd
Cyfodi wnaeth yn fyw o'r bedd ;
Esgynodd fry i'r orsedd fawr,
Yn frenin nef a daear lawr.

Daw etto ar gymylau'r nef
Pan ry'r archangel uchel lef
I farnu pawb o ddynolryw,
Y mawr a'r bach, y meirw a'r byw.

ESAU LV. 10, II.

'Run fath a'r gwlaw a'r eira gwyn
 Fo'n disgyn o'r uchelder,
 A wna i'r ddaear darddu'n iawn,
 A thyfu'n llawn ffrwythlonder.

Felly y bydd fy ngair medd Duw,
 Gwirionedd ydyw hefyd ;
 Fe lwydda'n mhobpeth tan y nef
 'R anfonais ef o'i blegyd.

SALM LXXIII. 28.

Da iawn i mi neshau at Dduw,
 Fy ngobaith yw'n wastadol ;
 Caf yno draethu'n deg ar g'oedd
 Ei holl weithredoedd nerthol.

Gwaith hyfryd iawn i'm henaidd yw
 Neshau at Dduw yn gyson,
 'R un wedd a'r plentyn at ei dad
 I dderbyn rhad fendithion.

ETO AR FESUR ARALL.

Da iawn i mi neshau at Dduw,
 Fy ngobaith yw o hyd ;
 Ei bur weithredoedd yn ddigoll
 A draethaf i'r holl fyd.

Fy mhrif lawenydd yn y byd
 Yw gwel'd ei hyfryd wedd ;
 Caf wledda byth ar fwrdd ei ras
 Yn Salem dinas hedd.

BTO AR FESUR ARALL.

Neshau ger bron fy Nuw
 Sy'n dda i mi bob awr ;
 Caf wleda yno tra fwyf byw
 Ar ffrwythau'i gariad mawr ;
 Ac hefyd draethu'n hy
 Ei holl weithredoedd ef,
 A chanu mawl i'm prynwr cu
 Yn un a theulu'r nef.

Cael trigo yn ei dy
 Rhyw fraint annrhaethol yw,
 Lle caf fwynhau yn ddedwydd iawn
 Gymdeithas lawn â'm Duw ;
 Dymunwn dreulio f' oes
 Yn Salem lân ddilyth ;
 Mynegu rhinwedd Gwaed y Groes
 Fydd gwaith fy enaid byth.

IOAN X. 11.

Myfi medd Crist yw'r Bugail Da,
 Fy einioes a gyflwynaf ;
 Yn lle fy mhraidd gwnaf hyn mewn pryd,
 A hwythau i gyd a gadwaf.

HUNANYMWADIAD.

Ymwadu'n llwyr ag ef ei hun
 Yw dyled dyn bob eiliad,
 Gan godi'r groes yn ddisgybl cu,
 A dilyn Iesu 'n wastad.

YR YSGOL SABBOTHOL.

Yr Ysgol Sabbothol fo'n llwyddo trwy'r byd
 Nes enill dynolion yn gyson i gyd,
 I ddysgu adnabod yr unig wir Dduw,
 A Christ y Cyfryngwr a'n Prynwr bob rhyw.

 PRIODAS-GERDD

LEWIS WILLIAMS, Ysw., Ieu., o Bronwnion, a Miss
 EMILY CHARLOTTE ABBEY, Brynhyfryd,
 Dolgellau, Awst 21, 1850.

Cu lachar seinio clychau,—gwaith enwog
 A thanio cyflegrau,
 A gollwng fu'n Nolgellau
 Ergydion, fawrion, dyrfaau.

Twrf pylor yn tarfu pelau—mygawl
 Oedd megis taranau
 A'r gwreichion, gwylltion yn gwau
 O'r bronydd i'r wybrenau.

Yr achos o'r holl orwychion—araul
 Fanerawg orchestion,
 Oedd mawr-ddydd terydd tirion—priodas
 Mwynwr gwiwras, a mûn o ragorion.

Williams a'i wraig ddieilydd—a unwyd
 I enyn llawenydd ;
 Sain gorioian, seirian sydd,
 Rialawg, drwy'r heolydd.

Enynodd yn Mronwnion—lawenydd

A lanwai bob calon ;

Gweled mae rhiaint gwiwlon

Eu mab mad yn ŵr llad llòn.

Teg eres blant, ac wyrion,—a'r rheiny'n

Rhai hynaws a serchlon,

O'i rwydd rad a roddo'r Ion

Iddynt yn etifeddion.

ENGLYNION

I Gymdeithas Gwyr ieuainc Salem, Llynlleifiad.

Henffych mewn gorwych gariad—wir selog

Wŷr Salem Llynlleifiad,

Dysgedigion mwynion màd,

Anfarwol o un fwriad.

Doethaidd a phur gymdeithas,—gwyr iachus

Goruchel eu hurddas,

Nid ynfydion coegion cas,

O feddwl anghyfaddas.

Gwyr ifainc llawn o grefydd—hoff eurddawn

Yn hyfforddi eu gilydd :

A chu eirioes chwaaiorydd,

Campus iawn o'u cwmpas sydd.

Llenorion rhwyddion rhiaiddiawl—i gyd

Yn gedyrn treiddiadawl,

A'u doniau di edwinawl,
A geir mor ddisglaer a'r gwawl.

Pybyr olrhainwyr hynod—uchelaidd
A chwiliant i'r gwaelod,
Treiglaw pob gair trwy wiw-glod
A wnant, nes cyrhaedd y nôd.

Mae dawnus foddus ofyddion,—moesgar
Yn eich mysg yr awron,
A hyddysg fawrddysg Feirddion,
Lliwgar bryd, yn llu ger bron.

Eich Athraw hylaw hwyliog—a golau
Yw Gwilym Hiraethog ;
Prif fardd seirian, (Glân ei Glog)
Duwiolaidd a dihalog.

ENGLYNION

I Mr. DAVID JONES, Fferyllydd yn Llynlleifiad.

Dafydd fel gwir bendefig—uchel-wych,
A chalon garedig ;
Gyda phwyll, heb dwyll na dig,
Ymwriodd o du Meurig.

Hynaws gwnaeth gasglu enwau,—arbenig
Dderbynwyr y Diliau,
Rhai darllengar clodgar clau,
Di-gynen, do ugeiniau.

Dyfal dros ben fu Dafydd,—nid cysglyd
 Yn casglu drwy'r trefydd ;
 O'i law daeth, ie liw dydd
 I'm enwau rif y manwydd.

Diolwch mawr a dalaf—i Ddafydd
 Yn ddifeth trwy'r gauaf ;
 Rhof ail glod, dan rhod yr haf
 Iddo, os byw a fyddaf.

ENGLYNION

A gyfansoddwyd yn fÿrifyfyr wrth edrych a gwrando
 ar Mr. EDWARD WILLIAMS, o Fangor, yn dangos
 ac yn darlithio ar y Bodaau Wybrenol yn
 ystafell lenyddol yr Annibynwyr yn
 Nolgellau, Mawrth yr 8, 1853.

Celfydd fesurydd y sêr—yw Iorwerth,
 E wÿr eu heangder ;
 Dyn doeth yw 'n meddu dawn dêr,
 Heb balldod gwyr eu pellder.

Iorwerth sy'n glodfawr wron—rhagoraf
 O'r gwiwrwydd seryddion ;
 Un treiddgar, beiddgar o'r bôn,
 Hynotach na'r hen Newton.

Yr huan gwiwlan golau,—a'r lleuad,
 A'r lluaws planedau ;

Dangosodd mewn clirfodd clau—yn berffaith
A'i gywrain beirianwaith ger ein bronau.

Nododd gylchawg drefniadau—Sadwrn
A'i syw-deg fodrwyau,
A chedyrn amgylchiadau
Mawrth, Mercher, Gwener, ac Iau.

ENGLYNION

I Mr. J. J. PHILLIPS, mab G. B. PHILLIPS, Ysw.,
Surgeon, Tywyn, Meirionydd.

Sion Phillips nid oes un ffelach—i'w gael
A golwg brydferthach ;
P'le tân nen ceir bachgen bach,
O ddull iawn ei ddilynach ?

Dir yw, na welwyd erioed—un llenydd
Yn llawnach o'i faboed ;
Nid aeth pan onid wyth-oed
O'i flaen ef, ddyn cyflawn oed.

Ei fawr awen foreuawl—a'i hurdda
A harddwch rhyfeddawl ;
Darlithydd dewr helaethawl,
Rhwydd yw fe, da'r haeddai fawl.

Yn ddoctor tra rhagorol—trydd allan
Trwy ddullwedd gorchestol ;
Meddu cymwysder meiddiol
Y mae yn awr, heb ddim yn ol.

CAROL NADOLIG.

TON:—"Y Genhadaeth."

Cyd ganed hil Adda fe ddaeth y Messia
I Fethl'em Judea ein Meichiau tra mawr;
Gwir Aer y nef uchod ymwisgodd mewn dyndod,
I achub eiddilod wael lychod y llawr;
Clywch lais angylion nefol gantorion,
Traethant newyddion yn dirion cyn dydd,
Fe anwyd Eiriolwr a chadarn Iachawdwr
Yn ddynol Waredwr a'u rhoddwr yn rhydd.

Mawr achos llawenydd i ni sydd o'r newydd,
Wrth gofio boreuddydd Pen Llywydd pob lle,
A'i gadw'n barchedig da wyliau Nadolig
I'r Oen bendigedig Mab unig y nef;
Dyma ryfeddod! ail Berson Duwdod
Yn ei fabandod yn briod a brawd,
Y Duw mawr Tragwyddol yn natur dyn meidrol,
Mae'n syndod anrhaethol, fel dyn da'i'n dylawd.

Os Adda droseddodd a'r gyfraith a dorodd,
Yn Eden pan bechodd fe ddigiodd ei Dduw;
Ei fai oedd werth bywyd ei hun a'i blant hefyd,
'Doedd iddo addewid am fynyd hwy i fyw.
Ond Haleluwia a sain Hosana,
Fe ddaeth yr ail Adda i'r lladdfa'n ein lle;

Fe gaw'd iawn cyfaddas dros ddynion oedd ddiras,
Mae'n eiriol mewn urddas yn ninas y nef.

Mawr gariad diderfyn oedd geni egynin,
O wryf lan forwyn yn wreiddyn y wraig ;
I wared hil ddynol oedd iddo'n elynol,
A sigo pen diafol hen ddrygsiol y ddraig ;
Ffordd rad agorodd o'r byd i'r nefoedd,
Iawn i'r ddeddf roddodd o'i wirfodd â'i waed ;
Maddeuant llawn hollol i'r enaid crediniol,
Drwy'r Iesu'r Oen grasol digonol a gaed.

Yr Iesu pur Rosyn oddefodd yn addfwyn,
Erchylldod pob gelyn tra chyndyn a chas ;
Ei wawdio a'i wadu mewn gwall a'i fflangellu,
Ynghyd a'i fradychu a'i werthu gan was ;
Seilo groeshoeliwyd, ein dyled dalwyd,
Mae gobaith bywyd, gorphenwyd gwir ffydd ;
Mewn bedd y gorweddodd, y trydydd dydd cododd,
Ac angau orchfygodd, fe'n rhoddodd ni'n rhydd.

Rhown offrwm calonog i'n Llywydd galluog,
Ein Prynwr trugarog, Eneiniog y nef ;
I'w deyrnas boed llwyddiant, i'w enw gogoniant,
A'r saint a gyd-ganant, llon unant eu llef.
Hosana seiniwn, i'r Drindod canwn,
Ti Dduw a folwn, ti barchwn yn ben ;
I'r Iesu sy' ar orsedd y nef mewn tangnefedd,
B'o'r parch a'r anrhydedd a'r mawredd, Amen.

CERDD NADOLIG.

AR Y MESUR "*Sant Siliak*."

Holl seintiau y nefoedd a lluoedd y llawr,
Dyrchafwn, clodforwn a molwn Dduw mawr,
Am ddanfôn ei gyfion Fab union i'r byd,
I'n grasol waredu a'n prynu mewn pryd :
Daeth engyl o'r nef yn llafar eu llef,
A'r newydd cysurlon i'r gron ddaear gref ;
Cyhoeddent yn hy fod Ceidwad mawr cu,
Yn Methl'em tre Ddafydd, pen llywydd pob llu.

Pan glybu'r bugeiliaid anwylfaid y nef
Yn canu mor felus â'u grymus ddawn gref,
I'r ddinas 'run fwriad, ar doriad y wawr,
Hwy aethant i ganfod rhyfeddod mor fawr ;
Canfyddent mewn cnawd eu brenin a'u brawd,
Yn faban anwylgu a'i lety'n dylawd ;
Dychwelent i gyd i daenu'n un fryd,
Y newydd ar gyhoedd i bobloedd y byd.

A'r doethion dwyreiniol yn siriol eu swydd,
I Fethl'em pan ddaethon' anrhegion yn rhwydd
A roesant i'r Iesu heb ballu mewn pwyll,
Aur, thus a myr gwerthfawr dieisawr heb dwyll,
Pan welsant heb wad y prydferth Fab rhad,
Tragwyddol ddisgleirwedd etifedd y Tad,

Syrthiasant yn awr o lwyrfryd i lawr,
I ganu gogoniant a moliant Duw mawr.

O gariad anfeidrawl attegawl y Tad,
Ei Fab a ddanfonodd fe'i rhoddodd yn rhad,
Yn iawn dros bechodau a beiau y byd,
A hyny drwy ryfedd drugaredd i gyd ;
Dyoddefodd Mab Duw ar ran dynolryw,
Hyd angau dychrynlyd gur enbyd gwir yw ;
Cadd lawer trom loes nes marw ar y groes,
Boddlonrwydd i'r gyfraith ar unwaith a roes.

Er maint a ddyoddefodd fe sigodd siol serth
Y diafol uffernol erch hudol a cherth ;
Efe yw'r rhyfelwr, concwerwr ei caed,
Gan ymdaith ar gyhoedd a'i wisgoedd yn waed ;
Cyfododd o'i fedd yn wiwlon ei wedd,
Esgynodd i'r gwynfyd yn hyfryd mewn hedd :
Llywodraeth y mor a'r tir a'i ystôr,
A fydd yn dragywydd ar ysgwydd yr Ior.

Cydganed dynolion yn gyson i gyd,
Ogoniant i brynwr a barnwr y byd ;
Yn hwn mae'i bechadur wir gysur i'w gael,
Mae'n rhoi o'i drugaredd ymgeledd i'r gwael ;
Mae'n galw o'r nef, gwrandaer ei lêf,
Ar bawb frysio dyfod i gymod âg ef :
Pwy bynag a ddel, mor sicred a'r sêl,
Caiff gyflawn dderbyniad drwy gariad heb gél.

Gan hyny nac oedwn, ymdrechwn trwy ras,
 Diangwn yn brydlon o'r ceimion ffyrdd cas ;
 Mewn hyder crediniol yn siriol neshawn
 At orsedd trugaredd trwy rinwedd yr Iawn ;
 Gorffwyswn drwy ffydd ar Iesu'n ddiludd,
 Gan gadw ei orch'mynion yn dirion bob dydd ;
 A'n rheol dan rhod fo datgan ei glod,
 Cawn fythol dangnefedd yn niwedd y nod.

CERDD NADOLIG.

MESUR:—" *Duw Gadwo'r Brenin.*"

Cydunwn yn lluoedd
 I foli Duw'r nefoedd,
 Cenhedloedd ac ieithoedd i gyd ;
 Dadganwn ar gynydd
 Wir glod i'n gwaredydd,
 Creawdydd a barnydd y byd ;
 Fe ganai'r llu nefol
 Ogoniant plygeiniol
 A seiniol brydweddol bêr don ;
 Byth gofus foregwaith
 Pan aned Crist perffaith,
 Rhoent foliant ar unwaith i'r Ion ;
 Bugeiliaid un galon
 A'r dethol wŷr doethion
 Ganasant i'r cyfion Ior cu :
 Gwnawn ninau gân newydd

Yn berffaith drwy bur-ffydd
I Ddofydd pen llywydd pob llâ.

Mae Crist yn ddiffuant
Yn deilwng o foliant
A bythawl ogoniant ar gân ;
Y saint yn ddiduedd
A lleisiau clodforedd
Mewn rhinwedd a'i rhyfedd fawrhan' ;
Mil myrdd o seraffiaid
A'r hybarch gerubiaid
A'i molant yn danbaid heb dôr ;
Eu gwaith yn ddidewi
Yn ngwlad y goleuni
Yw traethu daioni Duw Ior ;
Ei enw daionus
Yn seion folianus
A bery yn barchus dros byth ;
Yn Nghaersalem newydd
Addefir Duw Ddofydd
Yn Arglwydd da lywydd dilyth.

Ei gariad anfeidrol
A hunan gynhyrfiol
Tragwyddol rhyfeddol o fawr,
Gymhellodd y Duwdod
I sylwi ar eiddilod
Dim amgen na llychod y llawr ;
Ei gariad amlygodd,
A'r Tad a anfonodd,
Ei Fab ni arbedodd, i'r byd :
Yn rhad fe'i traddododd

Trwy arfaeth o'i wirfodd,
 Dros bawb a ragwelodd i gyd ;
 A rhai a ragwelodd
 Ior glan, a ragluniodd,
 Fe'u galwodd ymg'leddodd hwy'n glir ;
 Rhai hefyd a alwodd
 Fe a'u cyfiawnhaodd
 Ac a'u gogoneddodd yn wir.

Mae llais cyffredinol
 Efengyl dragwyddol
 Yn galw mewn rheol bob rhai ;
 Mae'n galw'r trwm lwythog
 Ar dir a'r blinderog
 Dan deimlad yn bwylllog o'u bai ;
 Mae'n dangos dihangfa
 Yn nghlwyfau'r Meseia
 I'r gwaetha a'r brynta gerbron ;
 Trwy ymorffwys ar fawredd
 Yr Iawn a'i wir rinwedd
 Iachheir eu holl lesgedd yn llon ;
 Llais anwrthwynebol
 Yr Ysbryd tragwyddol
 Anfeidrol a nerthol o'r nef,
 Fo'n deffro myrddiynau
 Gan agor calonau
 I ddal ar ei eiriau pur ef.

Crist Iesu, mae'n eglur,
 Yw Ceidwad pechadur,
 Rhyfeddwn ei lafur a'i loes ;
 Er poeri yn ei wyneb

Ni phalla'i ffyddlondeb
 Rhag dyoddef gerwindeb y groes ;
 Gwir Seilo groeshoeliwyd,
 A drain fe'i coronwyd,
 Fflangellwyd fe'i drylliwyd yn drist ;
 Y byd a'i dirmygodd,
 Iddewon a'i cablodd,
 Ac hefyd anghredodd y'Nghrist ;
 Ar groesbren fe drengodd,
 Mewn bedd y gorweddodd,
 Dihunodd, cyfododd yn fyw ;
 Cyfiawnder foddlonodd,
 I'r nef yr esgynodd,
 A'i eglwys gwaredodd gwir yw.

Cydganwn, clodforwn,
 A chynes grechwenwn,
 Dyrchafwn a molwn Dduw mawr ;
 Iddewon, Cenhedloedd,
 Cyd-unwn ar gyhoedd
 A lluoedd y nefoedd yn awr ;
 Pob perchen ffun genau
 Molianed ar liniau,
 Gan byncio perodlau pur iawn ;
 I Grist Brenin Seion
 Rhown foliant o'n calon,
 A'i gariad yn ffyddlon coffhawn ;
 Angylion a'i parchant,
 A'r saint a'i canmolant,
 Mynegant, eglurant ei glod ;
 Mewn nefol dafodiaith
 Fe'i molir fil milwaith
 Tra byddo'r nef berffaith yn bod.

ENGLYNION

I MISS DICKINS, Llynlleifiad.

Miss Dickins a roes im' docyn—anwyl,
Heb unwaith ei ofyn ;
Caiff gân o glod hynod am hyn,
Yn gonglog a deg englyn.

Tocyn hardd i'r bardd heb wad,—a roddodd
Mewn gwireddawl gariad ;
Caf am hwn wledd ryfedd rad,
Yn Salem ar iawn seiliad.

Rhian ffel ddihefelydd—ydyw Ann,
A daionus beunydd ;
Meinir dirion radlon rŷdd,
Buredig i hen brydydd.

Iechyd i Ann wych ei doniau,—a mawr
Ei mirain rinweddau ;
Mwyn a gwiw-rwydd mewn geiriau,—
Mawl' i hon fo'n amlhau.

ENGLYNION

I'r diweddar Mr. DAVID WILLIAMS, Pen-y-groes,
Brithdir.

Llenor synwyr-gall union,—oedd Dafydd,
A difefl wir gristion ;
Cyfaill mwynaidd llariaidd llon,
Rhwydd goleu rhydd ei galon.

Aml loes ga'i fam Eleisa—am Ddafydd,
Mae'n ymddifad yma ;
Och ddwyn ei gwâr ddoethgar dda,
Ryglydd-fawr fab i'r gladdfa.

ENGLYNION

I Syr R. W. FYCHAN, Bart., Nannau, 1824.

Y Beirddion doethion hyd arch,—ymreswch
I 'mryson cyd gyfarch;
Syr Robert sy ŵr hybarch,
Teilyngydd beunydd o barch.

Mynwesawl gymwynasydd,—hoff anwyl
A phenaeth Meirionydd;
Taener ar led y gwledydd,
Ei glod ef fel goleu dydd.

Gwladgarwr gloyw-deg eirioes—a difalch
Bendefig mwyneidd-foes,
Blaenor tirion ferth-lon foes
Tirionaidd, trwy ei einioes.

Am weithydd pawb ymwthiant,—i Nannau
Yn union y rhedant;
Croesaw maith a gwaith a gant
Yn fwynaid pan ofynant.

Yn Nannau, prif fan enwog,—ugeiniau
O genhedl y marchog
Fo'n tario tra cano côg,
Fel duwiau yn flodeuog.

Asgre lan Fychan a fo—yn barchus
Iawn berchen ar hono;
Cawr seddawg hir oes iddo,
Yn Nannau fraisg nen y fro.

ENGLYNION

I goffa JANE PUGH, merch fechan Mr. a Mrs. PUGH,
Dol-y-serau-uchaf, ger Dolgellau. Bu farw
Rhagfyr y 10, 1853, yn 5ml. oed.

Soriant yn Nolyserau,—hynodwyd
Gan genhadon angau ;
Eu rhwysg sydd yno'n parhau,
Blin addef drwy'r blynyddau.

Ow! tair Sian seirian siriol,—a gariwyd
I'r gweryd olynol ;
Ni ddaw 'run o'r tair dymunol,
Atyn' hwy byth eto'n ol.

Addurn y Sian ddiwedda,—a nodir
Yn enwedig yma ;
Ni chaed llenreg ddoeth-deg dda,
Burach er oes Debora.

Ystyrid cymwysderau—ei mebyd,
Yn mhob golygiadau,
Yn dreiddgar glodgar i glau—
Ddwys gyrhaedd y ddysg oreu.

Pwy erioed yn ei hoedran—a dreiddiodd
Drwy addysg mor fuan ;
Galarir, synir fod Sian
Gu rywiog yn y graian.

Trawanwyd ei rhieni—â hiraeth
O herwydd ei cholli ;
Gan mai'r bedd i'w hanedd hi,
Cwynant yn fawr eu cyni.

ENGLYNION

Ar briodas y Parch. J. RIDGE, a Miss E. WILLIAMS,
Mawrth 8, 1828.

Pur ydyw stad priodas,—ddihalog
Dda hylwydd gymdeithas ;
Y ddeuddyn mewn modd addas,—
Sy'n caru'r Iesu a'i ras.

Tawelwch fydd yn y teulu—a golud
Yn gwiw-lwys gynhyddu ;
Mewn gwastad agweddiad gu,
Gwres dinam heb groes dynu.

Boed i'r wraig mewn bywyd o rin,—garu
Ei gwr yn gysefin ;
Boed y gwr fel bwyd a gwin,
O gysur i'w wraig iesin.

ENGLYNION

I dair merch Mr. a Mrs. JONES, Penbryn, Dolgellau.

Margred a Gwen, hawdd eu henwi,—ag Ann
Rywiog eneth wisgi,
Tair chwaer hawddgar freingar fri,
Rhai anwyl i'w rhieni.

Tawel rianod diwair,—gwiw hoffus
Heb gaffael dim anair ;
Da gallwch a digellwair—
Wryfon tirion yw'r tair.

Llwydd iddynt dros eu holl ddyddiau—i fyw
Yn fawr eu rhinweddau ;
Mewn hedd pob un yn mwynhau,
Diddanwch a rhad ddoniau.

